CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020



Cynnwys

Cofnodion Aelodaeth a Phresenoldeb y Cyngor	**1**
Adolygiad Strategol Blynyddol, gan gynnwys	**2**
- COVID-19: ein hymateb strategol a gweithredol	**11**
Adolygiad Ariannol	**13**
Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol	**18**
Datganiad o Fudd Cyhoeddus	**21**
Cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd	**22**
Adroddiad Archwilwyr Annibynnol	**23**
Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Incwm Cynhwysfawr	**28**
Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn	**29**
Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Sefyllfa Ariannol	**30**
Datganiad Cyfunol a'r Sefydliad o Lifoedd Arian	**31**
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	**32**

Enw'r Elusen:
Prifysgol Caerdydd

Rhif Cofrestru'r Elusen:
1136855

Swyddfa Gofrestredig:
Y Prif Adeilad
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3AT

www.caerdydd.ac.uk

Llun ar y clawr blaen: Adeilad Syr Martin Evans, Prifysgol Caerdydd

Aelodaeth y Cyngor 2019/20

Enw	Math o Aelod	Presenoldeb yn y Cyngor
Cadeirydd: Yr Athro Stuart Palmer	Aelod Lleyg	7/7
Is-Gadeirydd: Ms Jan Juillerat	Aelod Lleyg	7/7
Is-Ganghellor: Yr Athro Colin Riordan	Cyflogai	7/7
Dirprwy Is-Ganghellor: Yr Athro Karen Holford	Cyflogai	7/7
Yr Athro Rudolf Allemann	Cyflogai	7/7
Mr Paul Baston	Cyflogai	1/7
Dr Carol Bell	Aelod Lleyg	4/7
Yr Athro Marc Buehner (hyd at 31 Gorffennaf 2020)	Cyflogai	5/7
Mr Ricardo Calil (o 21 Awst 2019)	Cyflogai	7/7
Ms Hannah Doe (o 1 Gorffennaf 2020)	Myfyriwr	1/1
Mr Tomos Evans	Myfyriwr	7/7
Ms Judith Fabian	Aelod Lleyg	7/7
Yr Athro Dame Janet Finch (o 26 Tachwedd 2019)	Aelod Lleyg	4/5
Mr Alastair Gibbons	Aelod Lleyg	6/7
Yr Athro Kim Graham	Cyflogai	6/7
Yr Athro Ken Hamilton (o 9 Hydref 2019)	Cyflogai	5/6
Mr Michael Hampson	Aelod Lleyg	7/7
Yr Athro Mary Heimann (hyd at 31 Gorffennaf 2020)	Cyflogai	7/7
Dr Reg Hinkley (hyd at 6 Medi 2019)	Aelod Lleyg	0/0
Dr Steven Luke	Aelod Lleyg	6/7
Ms Linda Phillips (hyd at 31 Gorffennaf 2020)	Aelod Lleyg	4/7
Mr Leonard Richards	Aelod Lleyg	3/7
Mr John Shakeshaft (o 1 Awst 2019)	Aelod Lleyg	7/7
Mr David Simmons (o 1 Awst 2019)	Aelod Lleyg	4/7
Judge Ray Singh	Aelod Lleyg	6/7
Dr Janet Wademan	Aelod Lleyg	7/7
Ms Agnes Xavier-Phillips	Aelod Lleyg	7/7
Ms Jackie Yip (hyd at 30 Mehefin 2020)	Myfyriwr	6/6

Bu pawb a restrwyd uchod yn Ymddiriedolwyr yr Elusen drwy gydol y flwyddyn o dan sylw yn yr Adroddiad hwn. Oni nodir fel arall, roeddent hefyd yn y swyddi hynny ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad.

Adolygiad Strategol Blynyddol

Cyflwyniad gan yr Is-Ganghellor

Flwyddyn yn ôl, ni fyddai'r un ohonom wedi gallu dychmygu y byddem ni'n profi pandemig, heb sôn am ddyfalu'r effaith aruthrol y byddai COVID-19 yn ei chael ar gymdeithas a'n Prifysgol. Mae'r effaith seicolegol, emosiynol a chorfforol ar ein staff a'n myfyrwyr wedi bod yn sylweddol.

Pan dorrodd yr argyfwng, prin oedd diwrnod yn mynd heibio heb fwy o newyddion trist. Cafodd pawb ym Mhrifysgol Caerdydd eu syfrdanu a'u tristáu gan y newyddion bod aelodau o'n staff ymhlith y rheini a gollodd eu bywydau i'r feirws newydd. Ar ran pob un ohonom hoffwn estyn fy nghydymdeimlad dwysaf â theuluoedd yr unigolion hyn.

Hoffwn hefyd yn y fan hon gofnodi fy niolch diffuant i gymuned ein Prifysgol. Mae'r ymrwymiad, cyd-gefnogaeth ac ewyllys da rhyfeddol a welwyd wrth i ni ddod at ein gilydd yn y cyfnod hwn o argyfwng cenedlaethol ac angen cymdeithasol wedi bod yn wych ac yn deimladwy.

Fel Prifysgol, ein prif nod fu - a bydd - diogelu iechyd ein pobl. Cafwyd symudiad cyflym at ddysgu, addysgu ac asesu ar-lein a gweithio gartref ym mis Mawrth 2020, a gwnaed rhai penderfyniadau hynod o anodd wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, fel gohirio ein seremonïau graddio.

Yr adeg hon y llynedd, roeddwn yn ysgrifennu am y sefyllfa ariannol eithriadol o anodd a grëwyd gan Brexit.

Gyda COVID-19 cafwyd ergyd ddifrifol arall. Nid i Gaerdydd yn unig, ond i addysg uwch yn ehangach.

Bydd yr effeithiau'n amrywio ym mhob prifysgol, ond maen nhw'n cynnwys lleihad yn y nifer o fyfyrwyr rhyngwladol, gohiriadau a cholledion sylweddol eraill fel canslo cynadleddau a digwyddiadau, a llety myfyrwyr.

Wrth i mi ysgrifennu, rydym ni'n dal i wynebu peth ansicrwydd o ran sut y bydd blwyddyn ariannol 2020/21 yn mynd rhagddi, ond rydym ni bron yn sicr o fod yn wynebu colledion gweithredu o ddegau o filiynau oherwydd y pandemig. Wrth i ni gynllunio i gwrdd â'r symiau hynny o'n cronfeydd, mae'r sefyllfa'n newidiol a heb os, bydd heriau ariannol pellach yn codi na allwn eu rhagweld yn sicr ar hyn o bryd.

Er ein bod yn ffodus ein bod wedi rheoli ein cyllid yn ddarbodus dros y blynyddoedd, does fawr o obaith y bydd y ffordd ymlaen yn unrhyw beth ond yn hynod heriol.

Rhaid i ni ymdrin â realiti'r sefyllfa sy'n ein hwynebu, waeth pa mor annymunol y gallai hynny fod. Mae'n rhy fuan dweud pa fesurau ychwanegol i arbed arian y gallai fod eu hangen, na sut fesurau fydden nhw, ond mae'r galw am leoedd ym Mhrifysgol Caerdydd yn parhau i ffynnu.

Yn strategol, hybodd COVID-19 ddiwygiadau i Y Ffordd Ymlaen 2018-2023 er mwyn gallu ystyried byd ansicr a gwahanol iawn. Mae'r pum prif faes rydym ni'n canolbwyntio arnynt yn parhau - addysg, ymchwil, arloesedd, rhyngwladol a chenhadaeth ddinesig - ond rydym ni wedi ail-fframio ein blaenoriaethau i ystyried y ffactorau llwyddiant critigol sy'n llywio ein hymateb i argyfwng y coronafeirws.

Y pwysicaf o'r rhain yw diogelu iechyd a lles ein myfyrwyr a'n staff. Mae cynaliadwyedd ariannol yn gyd-ddibynnol â'r flaenoriaeth honno. Bydd boddhad myfyrwyr, gweithgaredd ymchwil a chenhadaeth ddinesig - yn enwedig ein cyfraniad at ymdrin â'r argyfwng presennol - hefyd yn hanfodol.

Er bod y pandemig wedi taflu cysgod dros lawer o'r flwyddyn, rhaid i ni beidio ag anghofio'r cyflawniadau, y cerrig milltir a'r llwyddiannau sydd wedi digwydd yr un pryd.

Cafwyd cyfanswm o £150.4 miliwn mewn dyfarniadau ymchwil yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, y tro cyntaf i'r Brifysgol sicrhau dros £150 miliwn. Roedd yn flwyddyn arbennig o gryf o ran cyllid gan y Cynghorau Ymchwil (£37 miliwn).

Bu ein hymchwilwyr yn torri tir newydd, gan gynnwys darganfod ffosil hynaf y byd mewn chwarel tywodfaen yn Cairo, Efrog Newydd; adnabod math newydd o gell-T marwol sy'n cynnig gobaith o therapi canser fydd yn addas i bawb; a datgelu'r rhaniadau dwfn a gaiff eu creu yn sgil Brexit.

Gan ddychwelyd at COVID-19, mae ymateb ein cydweithwyr clinigol yn yr Ysgolion Meddygaeth, y Gwyddorau Gofal Iechyd a Deintyddiaeth wedi bod yn rhagorol.

Gwirfoddolodd dros 1,000 o'n myfyrwyr meddygol i helpu yn y frwydr yn erbyn coronafeirws drwy gefnogi GIG Cymru, ynghyd â'n myfyrwyr nyrsio, myfyrwyr gwaith cymdeithasol ac eraill.

Cynigiom ni gyrsiau hyfforddi a gloywi ar gyfer y sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar y rheng flaen, megis defnyddio peiriannau anadlu, offer diagnostig a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE).

Ar draws y Brifysgol, mae ein hacademyddion yn ymwneud ag ymchwil i frwydro yn erbyn y pandemig a'i ddeall. Mae rhai'n ymchwilio i frechlynnau posibl ar gyfer COVID-19, eraill yn olrhain lledaeniad y feirws, tra bo eraill yn edrych ar effaith y pandemig ar iechyd meddwl pobl ifanc.

Mae gennym reswm i fod yn ddiolchgar iddynt am eu holl waith yn helpu'r wlad i ymdopi â'r argyfwng.

Mae'r hyn sy'n dilyn yn nhudalennau'r Adolygiad Blynyddol hwn yn crisialu moment mewn amser, ciplun o realiti Prifysgol Caerdydd yn ystod pandemig. Bydd rhai o'n meysydd gwaith yn dangos pwyslais gwahanol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, oherwydd effaith COVID-19.

Y dasg sydd o'n blaenau bellach yw sicrhau bod y Brifysgol yn dod drwy gyfnod o gyfyngiadau ariannol llym, gan ddod allan mor gryf â phosibl er mwyn chwarae ein rhan wrth gael ein cefn atom yn sgl effeithiau economaidd a chymdeithasol andwyol a digynsail yr argyfwng.

Ein hegwyddor arweiniol, fodd bynnag, fydd diogelu iechyd, diogelwch a lles ein staff a'n myfyrwyr mewn pandemig sydd, wrth i mi ysgrifennu hyn o eiriau, yn edrych yn bell o fod yn gostegu.

Yr Athro Colin Riordan

Is-Ganghellor
23 Tachwedd 2020

Addysg

Myfyrwyr meddygaeth yn ymuno â'r rheng flaen

Mae dros 1,000 o fyfyrwyr meddygaeth Prifysgol Caerdydd wedi gwirfoddoli i helpu yn y frwydr yn erbyn y coronafeirws drwy gefnogi GIG Cymru.

Mae llawer yn gweithio ar y rheng flaen mewn wardiau COVID-19 mewn ysbytai ar draws Cymru, tra bo eraill mewn meddygfeydd neu'n cefnogi ymdrechion drwy addysg feddygol.



Myfyriwr wrth wraidd darganfyddiad LIGO

Bu myfyriwr PhD yn ei drydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd, yng nghanol datblygiad arloesol a allai helpu i ddatrys dirgelwch degawdau.

Gwnaeth partneriaeth wyddonol ar y cyd Arsyllfa Tonnau Disgyrchol yr Ymyriadau Laser (LIGO) – y mae Charlie'n aelod ohoni – ddarganfod gwrthdaro cosmig rhwng dau wrthrych a fu'n cylchu ei gilydd cyn taro yn erbyn ei gilydd ac uno i greu un twll du, a chynhyrchu sblash enfawr o donnau disgyrchol a allyrrwyd ar draws y Bydysawd ac a ganfuwyd yma ar y Ddaear.

Creu geiriadur bach o dermau Cymraeg newydd wrth gynnal ymchwil arloesol

Mae Bedwyr Ab Ion Thomas, myfyriwr PhD, yn cynnal gwaith ymchwil i afiechydon angheuol yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, ac wrth wneud hynny, mae'n troedio tir newydd yn yr iaith Gymraeg.

Yn ogystal â cheisio datblygu therapïau ar gyfer trin afiechydon prion prin, mae Bedwyr hefyd yn nodi geiriau newydd ac yn mireinio termau gwyddonol yn y Gymraeg. Ei nod yw cael geiriadur bach gyda thermau newydd i'w hychwanegu at y Gymraeg erbyn diwedd ei PhD.

Myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn rhoi'r hyn y maent wedi'i ddysgu ar waith yn ystod cyfnod COVID-19

Mae llawer ar y radd Meistr ddwy flynedd eisoes wedi cael eu cyflogi gan sefydliadau sy'n gweithio i gynnig gwasanaethau parhaus i'r bobl sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan fesurau cadw pellter cymdeithasol.

Diploma Ôl-raddedig newydd mewn Cynllunio Gofal Iechyd

Bydd gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, sydd â'r dasg o gynllunio cyfeiriad y GIG yng Nghymru yn y dyfodol, yn cael hyfforddiant academaidd ym Mhrifysgol Caerdydd.

Bydd Diploma Ôl-raddedig ym maes Cynllunio Gofal Iechyd yn cael ei gynnig i academyddion o Ysgol Busnes Caerdydd, yr Ysgol Mathemateg a'r Ysgol Meddygaeth. Caiff cyfanswm o 125 o bobl eu hyfforddi dros gyfnod o bum mlynedd.

Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi sêl bendith i Gaerdydd

Derbyniodd y Brifysgol ddyfarniad a chanlyniad cadarnhaol yn yr Adolygiad Gwella Ansawdd, adolygiad annibynnol i ddangos bod yr addysg a ddarparwn o safon ac ansawdd academaidd priodol.

Canfu'r adolygiad fod gan Gaerdydd drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau safonau academaidd, rheoli ansawdd academaidd a gwella ansawdd profiad y myfyrwyr, yn ogystal â phartneriaeth dda ag Undeb y Myfyrwyr.

Ymchwil

Gwyddonwyr yn datgelu coedwig ffosiliau hynaf y byd

Mae tîm dan arweiniad gwyddonwyr ym Mhrifysgol Birmingham, Amgueddfa Talaith Efrog Newydd a Phrifysgol Caerdydd, wedi darganfod gweddillion coedwig ffosiliau hynaf y byd mewn chwarel tywodfaen yn Cairo, Efrog Newydd.

Y gred yw bod y rhwydwaith helaeth o goed, a fyddai wedi lledaenu o Efrog Newydd yr holl ffordd i Pennsylvania a thu hwnt, tua 386 miliwn o flynyddoedd oed.

Cell T newydd yn cynyddu'r gobeithion o therapi canser cyffredinol

Mae ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd wedi darganfod math newydd o gelloedd T sy'n lladd sy'n cynnig gobaith am therapi canser "cyffredinol".

Mae'r gell T yn cynnwys math newydd o dderbynnydd cell T (TCR) sy'n adnabod ac yn lladd y rhan fwyaf o fathau o ganser dynol, gan anwybyddu celloedd iach. Dywedodd yr ymchwilwyr fod hyn yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu imiwnotherapïau ar gyfer pob canser a phob person, nad oeddem yn credu bod y rhain yn bosibl o'r blaen.

Rhaniadau Brexit

Cyhoeddwyd y rhaniadau dwfn sydd wedi'u tanio gan drafodaethau Brexit mewn ymchwil gan Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Caeredin.

Galwodd academyddion am drafodaeth gyfrifol wrth i un o'r canfyddiadau ddangos disgwyliadau eang y bydd y DU yn chwalu o ganlyniad i Brexit.



Olrhain lledaeniad COVID-19

Mae gan wyddonwyr o Gymru rôl flaenllaw wrth fapio lledaeniad y coronafeirws yn rhan o brosiect £20m a gyhoeddwyd gan brif gynghorydd gwyddonol y DU.

Mae Consortiwm Genomeg COVID-19 y DU yn dod ag arbenigwyr ynghyd o'r GIG, y byd academaidd ac asiantaethau iechyd cyhoeddus er mwyn dilyniannu a dadansoddi'r clefyd yn gyflym ac ar raddfa eang. Bydd y prosiect yn creu'r unig ganolfan dilyniannu COVID-19 yng Nghymru a bydd yn cynnwys tîm o wyddonwyr o Brifysgol Caerdydd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Prin a newidiodd arferion bwyta yn sgl y Goncwest Normanaidd

Mae archaeolegwyr o Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Sheffield wedi cyfuno'r dulliau gwyddonol diweddaraf i gynnig goleuni pellach ar fywyd yn ystod y Goncwest Normanaidd yn Lloegr.

Canfu'r tîm amrywiadau tymor byr yn unig mewn cyflenwadau bwyd yn dilyn y Goncwest, na chafodd effaith andwyol ar iechyd cyffredinol y boblogaeth. Daeth porc yn ddewis mwy poblogaidd a defnyddiwyd llai o gynnyrch llaeth. Ond, ar y cyfan, prin fu'r newid mewn deiet oedd yn cynnwys llysiau, grawnfwyd, cig eidion a chig dafad yn bennaf.



Gwyddonwyr yn canfod tystiolaeth o seren niwtron goll

Mae gweddillion uwchnofa ysblennydd a wnaeth chwyldroi ein dealltwriaeth o sut mae sêr yn gorffen eu bywydau wedi'u canfod o'r diwedd gan seryddwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r gwyddonwyr yn honni eu bod wedi canfod tystiolaeth o leoliad seren niwtron a gafodd ei gadael ar ôl pan ddaeth seren fawr at ddiwedd ei bywyd mewn ffrwydrad anferth, gan arwain at uwchnofa enwog a elwir yn Uwchnofa 1987A.

Rhyngwladol

Y Brifysgol yn croesawu myfyrwyr mwyaf disglair yr UD

Cynhaliwyd diwrnod cyntaf Fforwm blynyddol Fulbright yn y Brifysgol, lle cymerodd 45 o fyfyrwyr ôl-raddedig o'r Unol Daleithiau ran mewn gweithgareddau, gan gynnwys sesiwn ar hanes, diwylliant ac iaith Cymru, yn ogystal â thaith o gwmpas y campws.

Mae'r rhaglen Fulbright byd-eang yn hyrwyddo dealltwriaeth ddiwylliannol drwy gyfnewid addysgol.

Paratoi myfyrwyr rhyngwladol ar gyfer Prifysgol Caerdydd

Lansiwyd Prifysgol Caerdydd Canolfan Astudio Ryngwladol (ISC) ym mis Medi 2020, er mwyn rhoi'r cyfle i ragor o fyfyrwyr rhyngwladol astudio yma.

Bydd yr ISC yn rhoi mynediad i fyfyrwyr rhyngwladol at raddau israddedig ac ôl-raddedig yn y Brifysgol.

Hanesydd yn cyfrannu at Amgueddfa newydd am yr Ail Ryfel Byd ym Mharis

Roedd yr Athro Hanna Diamond yn gynghorwr hanesyddol i Amgueddfa Rhyddhau Paris – Amgueddfa Cadfridog Leclerc – Amgueddfa Jean Moulin, a agorwyd ym Mharis.

Mae cartref yr amgueddfa sydd newydd ei adnewyddu wedi'i leoli uwchben cyn-bencadlys Gwrthsafiad Paris. Yr Athro Diamond, sydd hefyd wedi curadu ei arddangosfa gyntaf ar y cyd, yw'r unig hanesydd o Brydain i gael ei chynnwys ar Conseil Scientifique yr amgueddfa, sef bwrdd cynghorol o haneswyr, curaduriaid ac archifwyr nodedig.

Gwydnwch newid yn yr hinsawdd yn Horn Affrica

Dyfarnodd Horizon 2020 yr UE dros €6.7m i dîm rhyngwladol o ymchwilwyr a sefydliadau er mwyn helpu i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd a dŵr yn Sychdiroedd Horn Affrica.

Dan arweiniad gwyddonwyr o Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr, bydd y prosiect yn defnyddio rhagolygon tymhorol modern a rhagamcanion degawdol o newid yn yr hinsawdd ac yn trosi hyn yn wybodaeth glir a chryno y gall ffermwyr a bugeiliaid, cymunedau, cyrff anllywodraethol a llywodraethau ei defnyddio i leihau effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd ar fywyd gwledig.

Arloesedd



Consortiwm yn ennill cais gwerth £43.7m i ddatblygu clwstwr sglodion Lled-ddargludyddion Cyfansawdd

Mae consortiwm dan arweiniad Prifysgol Caerdydd wedi ennill cais i ddatblygu pwerdy Lled-ddargludyddion Cyfansawdd (CS) yn ne Cymru.

Bydd y consortiwm buddugol yn dod â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe ac amrywiaeth o bartneriaid diwydiannol rhanbarthol allweddol ynghyd gan gynnwys IQE, SPTS, Newport Wafer Fab, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Catapwlt Rhaglenni Lled-ddargludyddion Cyfansawdd Llywodraeth y DU.

Canolfan newydd ar gyfer deallusrwydd artiffisial a roboteg

Bydd canolfan ar gyfer technolegau blaengar, o robotiaid a cherbydau diyrrwr i rithrealiti, deallusrwydd artiffisial (AI) a systemau seibr-ffisegol, yn cael ei hagor ym Mhrifysgol Caerdydd o ganlyniad i fuddsoddiad mawr gan gronfa Ewropeaidd.

Bydd y ganolfan newydd sbon ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial, Roboteg a Systemau Dyn-Peiriant yn amlygu Caerdydd a de Cymru fel hyb ar gyfer technolegau arloesol sydd ar gynnydd.

Efelychydd uwchsain yn helpu i fynd i'r afael â'r pandemig

Mae technoleg hyfforddi uwchsain, a ddatblygwyd yn wreiddiol ym Mhrifysgol Caerdydd, yn cael ei defnyddio yn Ysbyty ExCel Nightingale y GIG yn Llundain, er mwyn mynd i'r afael â COVID-19.

Mae Intelligent Ultrasound Group – cwmni meddalwedd deallusrwydd artiffisial (AI) ac efelychu defnyddio uwchsain – wedi ailbwrpasu ei efelychydd hyfforddi uwchsain BodyWorks Eve, er mwyn helpu clinigwyr i sganio'r ysgyfaint.

Caerdydd ac Airbus yn chwalu dirgelion Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Seiberddiogelwch

Mae Airbus yn cydweithio ag arbenigwyr o Brifysgol Caerdydd i ddatblygu ffyrdd newydd o ganfod ymosodiadau seiber gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial – gan ddatrys yr hyn a ganfyddir yn aml yn 'flwch du' algorithmau ym maes deallusrwydd artiffisial.

Dyfarnwyd cyllid i'r bartneriaeth i wella mabwysiad galluoedd canfod ac ymateb awtomatig trwy ddod o hyd i ffyrdd newydd o 'esbonio' sut mae AI wedi penderfynu bod presenoldeb maleisus ar y rhwydwaith, a phrofi hynny i arbenigwyr gweithrediadau.

Llwyddiant Cwmnïau Deillio

Gosodwyd Prifysgol Caerdydd yn y trydydd safle mewn rhestr newydd sy'n mesur pa mor dda yw prifysgolion y DU yn trosi eu hymchwil yn gwmnïau llwyddiannus.

Mae'r astudiaeth 'Research to Riches' yn tynnu sylw at y prifysgolion yn y DU sydd orau o ran creu cwmnïau deillio gwerth uchel, gan fesur effeithiolrwydd prifysgolion y DU o ran cynhyrchu eiddo deallusol, creu cwmnïau deillio a llwyddiant wrth adael cwmnïau deillio, o'i gymharu â chyfanswm yr arian nawdd a gawsant.

Busnesau yng Nghymru yn elwa o £1m i ddatblygu syniadau newydd

Mae Clwstwr, rhaglen uchelgeisiol a arweinir gan Brifysgol Caerdydd, i ysgogi arloesedd yn y sector creadigol wedi dyfarnu cyfanswm o £1m mewn grantiau i 23 o fusnesau yn ne Cymru.

Mae'r prosiectau a ddewiswyd yn cynnwys gwasanaeth newyddion i ysgolion, cyfleusterau golygu o bell i dyfu ôl-gynhyrchu yn rhanbarthol a defnyddio technoleg i drawsnewid y ffyrdd y mae pobl yn gwneud ac yn cael profiad o ddawns, a byddant yn gwella'r diwydiannau sgrîn a newyddion, gyda'r potensial i wella sectorau eraill fel addysg, gofal iechyd a busnes.

Cenhadaeth Ddinesig

Gwaith cloddio archaeolegol o bellter cymdeithasol yn dod â chymuned ynghyd

Yn ystod pandemig COVID-19, gofynnodd Prosiect Treftadaeth Ailddarganfod Caerau a Threlái (CAER) i bobl ym maestrefi gorllewin Caerdydd yng Nghaerdydd a Threlái ymgymryd â'u gwaith cloddio archeolegol eu hunain yn eu gerddi i helpu i gael rhagor o wybodaeth i archeoleg a hanes cyfoethog yr ardal.

Mae'r ŵyl ddigidol yn dod ag addysg uwch at bobl ifanc sydd dan anfantais

Cynhaliodd Prifysgol Caerdydd ei gŵyl ar-lein gyntaf i gefnogi pobl ifanc sydd o amrywiaeth o gefndiroedd anfanteisiol, i fentro i addysg uwch.

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, bydd Gŵyl eCampws Festival – a gyflwynwyd ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Sutton a First Campus – yn cynnig gweithgareddau ar-lein arloesol i blant rhwng 16 ac 18 oed fel rhan o raglen bythefnos o hyd.

Plant ysgol yn chwilio am hoff flodau gwenyn

Mae disgyblion ysgol yn helpu gwyddonwyr i nodi cymysgedd o 'hadau uwch' o flodau gwyllt sy'n cefnogi gwenyn mêl a pheillwyr hanfodol eraill.

Gwnaed tua 200 o bacedi o hadau blodau gwyllt ar gael am ddim i blant ysgolion cynradd i'w plannu yn Cathays, Caerdydd, yn rhan o brosiect Ail-wylltio Caerdydd i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr Cymru ac ychwanegu at wyrddni'r ddinas.

Cystadleuaeth ysgrifennu ffuglen i blant yng Nghymru a Namibia

Mae Prifysgol Namibia a Phrifysgol Caerdydd wedi lansio cystadleuaeth ar y cyd i ysgrifennu straeon byrion ar gyfer plant.

Cynhelir y gystadleuaeth gan Brosiect Phoenix, sy'n bartneriaeth rhwng y ddwy brifysgol er mwyn gwella iechyd, lleihau tlodi a datblygu agwedd sensitif a chynaliadwy tuag at yr amgylchedd. Roedd trefnwyr yn gobeithio y byddai'r gystadleuaeth yn annog darllen a hyrwyddo cyfnewid diwylliannol.

Sheen yn cwrdd â ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n graddio

Mae'r actor Michael Sheen wedi llongyfarch ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn bersonol am raddio o ysgol haf arloesol.

Mae'r rhaglen ASPIRE chwe wythnos o hyd - a drefnwyd gan Brifysgol Caerdydd a First Campus – yn cefnogi ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr gorfodol sydd am astudio ar lefel addysg uwch y DU. Mae myfyrwyr yn cael dosbarthiadau Saesneg dwys, cyrsiau rhagflas academaidd, profiadau sy'n cynyddu hyder a chyngor ar sut i wneud cais am le mewn prifysgol.

Adferiad gwyrdd

Mewn ymateb penodol i COVID-19, cynhaliodd y Brifysgol gweminar gyda Sophie Howe (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru) a Jeremy Miles AS (Gweinidog Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am adferiad ôl-COVID-19) yn archwilio effaith y coronafeirws ar bobl ifanc ac ystyried y rôl y mae'n rhaid i brifysgolion ei chwarae wrth ddarparu adferiad gwyrdd fel rhan o'n cenhadaeth ddinesig ehangach.

Byddwn yn adeiladu ar hyn ymhellach dros y misoedd nesaf.

Cefnogi Caerdydd

Cafodd yr holl fentrau isod, a llawer mwy, eu cefnogi gan roddwyr, codwyr arian a gwirfoddolwyr Prifysgol Caerdydd yn 2019-20, sy'n credu yng nghenhadaeth Prifysgol Caerdydd i greu a rhannu gwybodaeth, ac addysgu er budd i bawb. Rydym yn hynod ddiolchgar i'w haelioni a'u cefnogaeth barhaus drwy gydol y cyfnod heriol hwn.

£10m

Grant o £10m gan Sefydliad Wolfson i ariannu canolfan ymchwil arloesol

Bydd y rhodd arbennig hwn yn sefydlu Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, sef canolfan ymchwil ryngddisgyblaethol benodedig fydd yn canolbwyntio ar leihau gorbryder ac iselder ymysg pobl ifanc. Bydd arbenigwyr Prifysgol Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, Byrddau Iechyd Prifysgol ac ysgolion Iedled Cymru.

Dros £4m

o roddion ac addewidion newydd gan fwy na 1,000 o roddwyr a chodwyr arian

Mae eu cymorth yn gwneud ymchwil o safon fyd-eang yn bosibl ac yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr dawnus ffynnu.

309

o aelodau #TîmCaerdydd yn codi dros £76,000

Gwnaeth rhedwyr #Tîm Caerdydd ymgymryd â heriau fel Hanner Marathon Caerdydd/Prifysgol Caerdydd 2019 a'r Hanner Marathon Mawr, yn ogystal â chodi arian allan yn y gymuned. Maen nhw'n cefnogi ymchwilwyr ym meysydd canser, y niwrowyddorau ac iechyd meddwl, sy'n gweithio'n galed i ddatblygu technegau diagnosis cynt, a chreu triniaethau mwy effeithiol wedi'u personoli.

123

o gynfyfyrwyr wedi rhoi o'u hamser a'u profiadau i gefnogi Prifysgol Caerdydd

Mae cynfyfyrwyr a ffrindiau yn helpu darpar fyfyrwyr, a myfyrwyr presennol Prifysgol Caerdydd drwy ymuno â diwrnodau agored a digwyddiadau i ddeiliaid cynnig, gwneud cyflwyniadau cyflogadwyedd a darparu interniaethau. Mae'r cyfleoedd hyn yn rhoi mewnwelediad a phrofiad gwerthfawr i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

100+

o ymchwilwyr wedi'u cefnogi yn 2019-20

Daw ein hincwm dyngarol gan ystod eang o gefnogwyr, sy'n galluogi cannoedd o ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd i gynnal ymchwil arloesol.

Mae Prifysgol Caerdydd yn ddiolchgar i'w holl gefnogwyr. Mae eich rhoddion, eich amser a'ch egni yn helpu i achub, newid, a chyfoethogi bywydau yng Nghymru a thu hwnt.

Diolch

i 92 aelod Cylch Caerdydd

Fe wnaethon nhw ein cefnogi gyda'u rhoddion hael i helpu ein myfyrwyr a'n gwaith ymchwil. Cafodd Cylch Caerdydd, sydd bellach ar ei bedwaredd flwyddyn, ei sefydlu er mwyn cydnabod rhoddwyr sy'n cefnogi Prifysgol Caerdydd gyda rhoddion o dros £1,000 neu fwy mewn blwyddyn academaidd. Rhagor o wybodaeth:

www.cardiff.ac.uk/cy/donate/join-cylch-caerdydd

Ydych chi'n awyddus i gefnogi Prifysgol Caerdydd?

Ewch i: **cardiff.ac.uk/cy/alumni/get-involved** neu **cardiff.ac.uk/cy/donate**

- Ewch i Ddiwrnodau Agored a digwyddiadau eraill i rannu eich profiad ôl-brifysgol gyda darpar fyfyrwyr Caerdydd
- Cyflogwch fyfyrwyr talentog Caerdydd ar leoliadau gwaith neu interniaethau
- Ymunwch â #TîmCaerdydd yn Hanner Marathon Caerdydd/Prifysgol Caerdydd
- Cyflwynwch rodd i gefnogi myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ac ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd.

Cynaliadwyedd

Deon Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Penodwyd yr Athro Mike Bruford yn Ddeon Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Brifysgol, gan roi arweinyddiaeth bwrpasol academaidd i ddatblygu a chyflawni ein strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol.

Drwy ei rôl, bydd yr Athro Bruford yn sicrhau bod y wybodaeth sydd gan ein harbenigwyr academaidd yn y maes hwn yn cael ei throsglwyddo i'n myfyrwyr, ein staff a'r gymuned ehangach wrth lywio ein gweithgareddau ein hun, yn ogystal â rhoi arweinyddiaeth ar lwybr y Brifysgol i beidio â chynhyrchu allyriadau.

Datgan argyfwng o ran yr hinsawdd

Datganodd y Brifysgol argyfwng o ran yr hinsawdd, a chyhoeddi ei nod i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Rydym hefyd wedi datgelu ein bod wedi rhoi'r gorau i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil yn llwyr – flwyddyn yn gynnar – gan alinio ein penderfyniadau buddsoddi â'n hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol.

Prosiect modelu carbon

Gwnaed gwaith modelu carbon sylfaenol gydag academyddion y Brifysgol a thrwy benodi dau fyfyriwr ar interniaeth PhD.

Yn dilyn yr wythnos hon, mae sefyllfaoedd yn cael eu datblygu i lywio llwybr y Brifysgol i beidio â chynhyrchu allyriadau erbyn 2030.

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth bellach ar waith a'i nod yw rheoli a gwella bioamrywiaeth ar draws ein hystâd drwy leihau ein dirboenwyr, gwella cysylltedd cynefinoedd ac ymgorffori ein seilwaith gwyrdd mewn gweithgareddau addysgu ac ymchwil.

Adfer coedwigoedd glaw

Sefydlodd Prifysgol Caerdydd bartneriaeth gyda Chanolfan Maes Danau Girang i dreialu Regrow Borneo, prosiect moesol, tryloyw a arweinir gan ymchwil i adfer coedwig law.

Mae gwaith plannu sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol wedi dechrau i gael 12,500 o goed yng Ngorlifdir Isaf Kinabatangan, Borneo. Fe ddatblygodd ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd raglen fonitro, ryngddisgyblaethol a modern sy'n gwerthuso effaith y prosiect – storio carbon, bywydau a bywoliaethau mewn cymunedau lleol, bioamrywiaeth, cadwraeth a chadernid ecosystemau.

COVID-19:
ein hymateb strategol a gweithredol

Ers dechrau mis Ebrill 2020, mae'r Brifysgol wedi symud o reoli digwyddiad mawr mewn ymateb i COVID-19, i weithrediadau adfer busnes cynaliadwy.

Ym mis Mai 2020, sefydlodd yr Is-Ganghellor dasglu i oruchwylio pob agwedd ar ailagor y Brifysgol, a'n busnes o ddydd i ddydd yn ystod argyfwng COVID-19. Rydym wedi addasu ein model cyflawni gweithredol a'n ffyrdd o weithio mewn meysydd allweddol fel a ganlyn:

- Symud yn gynaliadwy i addysg ddigidol a chyfunol ar-lein a phrofiad addysgol ar y campws ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.
- Ailddychmygu profiad y myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 i ystyried cyfyngiadau COVID-19.
- Adolygu trefniadau gweithio staff, gan eu cefnogi i weithio o gartref lle bynnag y bo modd.
- Ailsefydlu gwasanaethau a chyfleusterau mewn ffyrdd sy'n ddiogel o ran COVID-19 i'r rhai hynny y mae angen iddynt weithio ar y campws i gefnogi gweithgareddau allweddol.
- Mae ymchwil hanfodol wedi parhau ar y campws a dechreuwyd dychwelyd ymchwilwyr yn ôl i'r campws gam ar y tro.

Yn ystod yr ymateb digwyddiad mawr i bandemig COVID-19, crëwyd cofrestr risg pwrpasol i COVID-19. Wrth i ni symud i'r modd adfer busnes, mae'r risgiau hyn bellach wedi'u cymhathu i gofrestr Bwrdd Gweithredol y Brifysgol sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Gyngor y Brifysgol.

Mae ein holl waith wedi'i lywio gan bolisi'r Llywodraeth a chanllawiau cenedlaethol. Rydym wedi cynllunio ein camau gweithredu yn unol ag egwyddorion ac ystyriaethau Prifysgolion y Deyrnas Unedig ar gyfer codi'r cyfyngiadau symud i sicrhau bod pob maes yn cael sylw, a bod y risgiau'n cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol.

Ail-lunio ein strategaeth

Oherwydd argyfwng COVID-19, roedd angen ailystyried strategaeth *Y Ffordd Ymlaen 2018-23*, ac addasu ein blaenoriaethau strategol i'r sefyllfa newydd *Y Ffordd Ymlaen 2018-23: Ail-lunio COVID-19*.

Yn anad dim, ein blaenoriaeth yw iechyd a lles ein myfyrwyr a'n staff. Er mwyn sicrhau hyn, rhaid i ni fod yn gynaliadwy yn ariannol. Wrth i ni fynd â'r blaenoriaethau cyd-ddibynnol hyn ymlaen, sef iechyd a lles a chynaliadwyedd ariannol, rhaid i ni wneud yn siŵr bod ansawdd a gonestrwydd ein gweithgareddau academaidd ac addysgiadol yn hollbwysig o hyd.

Yn ail, bydd y tro hwn ar fyd yn effeithio'n ddwys ar ein perfformiad a sut rydym yn asesu cynnydd. Nid ein safle mewn tablau cynghrair fydd y mater pwysicaf bellach. Yn lle hynny, rhaid i ni sicrhau ein bod yn goroesi ac yn ffynnu.

Gwneud ein campws yn ddiogel

Rydym wedi gweithio'n galed i roi mesurau amddiffynnol ar waith yn unol â chanllawiau swyddogol ac wedi gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyda Chyngor Dinas Caerdydd i sicrhau bod ein campws yn ddiogel yn y cyfnod digynsail hwn.

Er mwyn ein helpu ni i ganfod unrhyw heintiau, clystyrau neu achosion ar y cam cynharaf posibl, rydym wedi cyflwyno gwasanaeth sgrinio COVID-19 mewnol. Caiff yr holl fyfyrwyr a staff sy'n asymptomatig y cyfle i gymryd prawf ychydig ar ôl cyrraedd y campws. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i ynysu'r rheiny a allai fel arall fod yn lledaenu'r feirws. Rydym hefyd yn cyflwyno system hysbysu fel bod yr holl fyfyrwyr a staff yn gallu rhoi gwybod yn gyflym am unrhyw symptomau tebyg i'r coronafeirws.

Mae ein hystâd wedi cael ei hadfywio, gydag arwyddion clir yn ein hadeiladau ar gyfer llwybrau cerdded unffordd, cyfleusterau golchi dwylo ychwanegol, ac mae pwyntiau cyffwrdd uchel, fel dolenni drysau, yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Er mwyn lleddfu'r risg o drosglwyddo COVID-19, rydym wedi penderfynu fel Prifysgol, y byddwn yn parhau â'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr ar y campws, beth bynnag fo unrhyw newidiadau a gyhoeddir gan y Llywodraeth neu awdurdodau iechyd cyhoeddus. Rydym hefyd wedi darparu gorchuddion wyneb amldro ar gyfer ein staff, myfyrwyr ac ymwelwyr, a bydd angen eu gwisgo yn ein hadeiladau (heblaw am eithriadau derbyniol).

Gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr

Gwnaethom addasu ein trefniadau llywodraethu ar ddechrau ein hymateb i'r pandemig i gynnwys cynrychiolwyr o Undeb y Myfyrwyr yn ein tasglu COVID a'n grŵp bywyd myfyrwyr, sydd wedi goruchwylio'r penderfyniadau a wnaed am elfennau allweddol dysgu cyfunol, addysg wyneb yn wyneb a phrofiad y myfyrwyr.

Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, rydym yn datblygu gweithrediad lle bydd myfyrwyr sy'n hunanynysu yn gallu ymuno â sesiwn galw heibio ar-lein i gael cefnogaeth neu glust i wrando arnynt. Caiff y sesiwn ei arwain gan fyfyriwr gwirfoddol wedi'i hyfforddi sydd â chysylltiadau i'n gwasanaethau cefnogi myfyrwyr proffesiynol.

Rydym wedi cadw ein perthynas waith agos gyda'r tîm o swyddogion etholedig ac uwch-arweinwyr Undeb y Myfyrwyr i gefnogi'r newidiadau maen nhw wedi'u gwneud i'r ystod lawn o'u gwasanaethau masnachol a lles.

Dysgu cyfunol o safon uchel

Mae ein myfyrwyr wedi dweud wrthym fod llawer ohonynt yn disgwyl rhyw elfen o ddysgu wyneb yn wyneb yn rhan o'u hastudiaethau. O fewn y cyfyngiadau, ein nod fydd cynnig hyn yn rhan o ddarpariaeth gyfunol y dysgu, a ategir gan rai elfennau ar-lein. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd mewn prifysgolion lleol eraill ac ym Mhrifysgolion Grŵp Russell.

Mae ein hystafelloedd addysgu yn bodloni'r canllawiau iechyd gofynnol ac, os dilynir y rheolau, nid yw addysgu ar gampws yn golygu bod ein myfyrwyr yn 'gyswllt' â'r rhai o'u cwmpas oherwydd hynny.

Ni fydd darlithiau mawr yn cael eu cynnal ar y campws. Lle y gellir bodloni gofynion cadw pellter cymdeithasol, bydd dysgu ar y campws yn digwydd ar ffurf addysgu wyneb yn wyneb mewn grwpiau llai o faint. Bydd yn cynnwys tiwtorialau neu sesiynau clinigol, stiwdio a labordy, lle y bo'n berthnasol. Bydd y sesiynau llai o faint hyn yn elwa o fesurau diogelwch ychwanegol, ochr yn ochr â gweithgareddau ac adnoddau addysgu a dysgu ar-lein sydd o ansawdd uchel.

Cefnogi ein myfyrwyr

Drwy gydol y pandemig, mae modd i'n myfyrwyr fanteisio ar y gwasanaethau cefnogi myfyrwyr proffesiynol o hyd, lle bynnag maen nhw'n byw. Gwnaethom symud ein gwasanaethau i weithio o bell yn gyflym ym mis Mawrth 2020, ac rydym yn parhau i weithredu fel hyn gyda lefelau da o ymgysylltu â myfyrwyr.

Rydym yn parhau i gynnig mynediad at Talk Campus i'n holl fyfyrwyr, sef safle rhwydweithio cymdeithasol sy'n cynnig man diogel i siarad yn ddienw am unrhyw beth heb gael eich beirniadu. Caiff Talk Campus ei fonitro gan dîm proffesiynol yn ogystal â chyfoedion myfyrwyr.

Ar ddechrau'r pandemig, rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, gwnaethom ryddhau myfyrwyr o'u cytundebau llety ar gais ac ad-dalu rhent yn unol â hynny. Gwnaethom ymgysylltu â darparwyr llety myfyrwyr a adeiladwyd yn bwrpasol (PBSA) yn y ddinas i annog dulliau tebyg, a cheisio sicrhau eu bod yn codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau cefnogi myfyrwyr.

Gwnaethom gyflwyno gwasanaeth dros dro i fyfyrwyr lle gwirfoddolodd 200 o staff ar draws i brifysgol i gadw llygad ar fyfyrwyr a arhosodd yng Nghaerdydd yn ystod y cyfnod hwn. Dyma wasanaeth lles sylfaenol i sicrhau bod y myfyrwyr hynny'n iach ac i'w cyfeirio nhw at gefnogaeth broffesiynol os oedd angen.

Er mwyn paratoi at y flwyddyn academaidd nesaf, gwnaethom gyflwyno platfform cyfeiriadaedd ar-lein sy'n rhoi gwybodaeth am gymorth a gwasanaethau ar draws y Brifysgol i fyfyrwyr cyn iddynt gyrraedd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth benodol i fyfyrwyr am ddiogelwch COVID-19.

I helpu i atal myfyrwyr mewn preswylfeydd rhag bod yn unig, rydym wedi cyflwyno tîm cefnogaeth gan gymheiriaid myfyrwyr Bywyd Preswyl mwy. Gellir cysylltu â'r tîm hwn o bell, gan ddefnyddio platfform ar-lein newydd. Mae hyn yn caniatáu i ni gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol a rhyngweithiol o bell y gallwn eu haddasu'n hawdd ar sail diddordeb a galw.

Addaswyd ein dull sefydledig o gefnogi myfyrwyr yn ariannol i amgylchiadau gweithio o bell yn sgil y pandemig. Yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Awst 2020, gwnaethom wario oddeutu £80k ar gronfeydd caledi i fyfyrwyr sy'n ymwneud â COVID-19, gan gynnwys cefnogaeth tlodi digidol. Roedd hyn yn bennaf i helpu myfyrwyr o gefndiroedd ehangu mynediad. Rydym yn parhau i gefnogi myfyrwyr o'r gronfa gyda phroblemau ynghylch tlodi digidol. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar ffyrdd i wella ein dull o gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd incwm llai gyda phroblemau ynghylch mynediad at galedwedd TG, yn arbennig gliniaduron.

Myfyrwyr sy'n hunanynysu

Mae myfyrwyr sy'n nodi eu bod yn hunanynysu yn cael amrywiaeth o gymorth a chyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth ymarferol am yr hyn maen nhw angen i wneud, cyngor o ran cael bwyd i'w cartref a chyfeirio at ffynonellau cyngor a chefnogaeth.
- Gwiriadau lles gan ein Tîm Cefnogi a Lles Myfyrwyr.
- Bydd y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu hefyd yn cadw llygad ar y rhai hynny sy'n hunanynysu bob dydd drwy neges destun neu alwad ffôn.

Gan gydnabod yr anawsterau mae'r pandemig wedi'u hachosi ar ddanfoniadau bwyd, rydym wedi sefydlu 'Marketplace,' sef gwasanaeth anfon nwyddau i fyfyrwyr sy'n byw yn ein preswylfeydd i'w galluogi nhw i archebu bwydydd sylfaenol, eitemau gofal iechyd, cig ffres, ffrwythau a llysiau. Gall myfyrwyr hefyd archebu prydau bwyd cynnes i'w hanfon i Breswylfeydd y Brifysgol neu i'w casglu o un o'n bwytai os nad ydyn nhw'n hunanynysu.

Ar gyfer myfyrwyr a gyrhaeddodd ym mis Medi gyda gofyniad cwarantin, ariannodd a chyflenwodd y Brifysgol becynnau dillad gwely a bwyd hanfodol a oedd yn ystafelloedd myfyrwyr wrth gyrraedd. Roedd y pecynnau hyn yn cynnwys bwyd a diod yn unol â gofynion deietegol.

Mae hefyd gennym gyngor ac arweiniad ddydd a nos i'n holl fyfyrwyr ar ein mewnrwyd a thrwy ein gwasanaeth Cyswllt Myfyrwyr newydd sy'n cynnwys gweithrediad holi ac ateb ar-lein. Cyflwynwyd y gweithrediad newydd hwn yn gynnar yn rhannol oherwydd y pandemig.

Cefnogi ein staff

Rydym yn cymryd lles staff o ddifrif – dyna pam rydym wedi datblygu ffyrdd newydd o helpu staff i newid i weithio o bell ac addysgu ar-lein yn ystod pandemig COVID-19.

Drwy gydol mis Ebrill, mis Mai a mis Mehefin 2020, gwnaethom greu diwrnodau lles, sef diwrnod penodol bob wythnos i alluogi pob aelod o staff i gamu i ffwrdd o uniongyrchedd cyfathrebu digidol a rhoi amser i ganolbwyntio ar eu lles meddwl a chorfforol, gan ymgymryd â gweithgareddau hunangyfeiriedig a thasgau rhagweithiol.

Er mwyn i'r staff hynny sy'n dychwelyd i'r campws ddysgu ac i gynorthwyo'r broses o drosglwyddo i ddarpariaeth ar-lein, rydym wedi cynhyrchu Fframwaith Dysgu Digidol sy'n nodi trothwyon strwythur rhaglenni ar-lein, a Gwasanaeth Addysg Ddigidol newydd.

Ein Hymrwymiad Cymunedol

Rydym wedi gofyn i'n staff a'n myfyrwyr i fabwysiadu ein Hymrwymiad Cymunedol – addewid i ddarllen, dilyn a chefnogi canllawiau'r Brifysgol a'r llywodraeth a chymryd cyfrifoldeb personol dros sicrhau bod y lleoedd maen nhw'n byw, yn gweithio ac yn astudio ynddynt mor ddiogel â phosibl. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod i gyd yn gweithio i gefnogi ein gilydd, ymddwyn yn briodol a chydag ystyriaeth, ac ymyrryd pan fyddwn yn gweld eraill yn peidio â chynnal ymddygiad a safonau'r Brifysgol.

Edrych ymlaen

Iechyd a lles staff, myfyrwyr a'n cymunedau cyfagos fu blaenoriaeth bennaf y Brifysgol wrth ymateb i bandemig COVID-19, ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth iddi.

Bydd hynny'n parhau i wasanaethu fel ein cwmpawd am y flwyddyn i ddod, ynghyd â chynaliadwyedd ariannol. Ni fydd yn llwybr hawdd, ac efallai bydd angen gwneud penderfyniadau anodd, ond ein nod yw goroesi a ffynnu. Y tu hwnt i'r dyfodol agos, dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn:

- Ail-bennu blaenoriaethau newydd er mwyn rhoi'r profiad o'r safon uchaf posibl i'n myfyrwyr o dan gyfyngiadau argyfwng COVID-19, gan gynnal ein safonau a'n gonestrwydd academaidd.
- Ail-lunio ein cenhadaeth ddinesig i helpu'r llywodraeth, y gwasanaethau iechyd a'r gymdeithas ehangach er mwyn adfywio ac adnewyddu tirwedd economaidd, gymdeithasol a diwylliannol Cymru.
- Rhoi cynlluniau lliniaru ar waith ac yn paratoi'n barhaus ar gyfer byd ôl-COVID-19 lle bydd modd teithio, rhyngweithio'n gymdeithasol heb gyfyngiadau a chynnal gweithgareddau rhyngwladol go iawn unwaith eto.
- Lliniaru effaith bresennol COVID-19 ar ymchwil drwy annog staff i weithio ar ddeilliannau ymchwil y gellir eu gwneud o bell.
- Cwblhau ein prosiectau adeiladu sy'n gysylltiedig ag ymchwil, ynghyd â Champws Arloesedd Caerdydd i'n rhoi ein hunain mewn sefyllfa effeithiol yn unol â chyfleoedd adnewyddu ac adfywio ôl-COVID.

Adolygiad Ariannol

Dychwelyd i warged gweithredu o £14.1m

Unwaith eto, mae ein canlyniadau ariannol wedi bod yn gymhleth eleni oherwydd y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer darpariaethau pensiwn. Pan fydd y rhain yn cael eu tynnu allan o'r gwarged cyffredinol o £30.9m, mae'n dangos bod y Brifysgol wedi gweddnewid ei pherfformiad ariannol - gan ddarparu gwarged gweithredu o £14.1m o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol o ddiffygion gweithredu.

Mae'r gwarged gweithredu sylfaenol, sef £14.1m, yn cyd-fynd â chyfanswm y gwarged o £30.9m fel a ganlyn:

Crynodeb o Ganlyniadau Fesul Grŵp

	2019/20 £m	2018/19 £m
Cyfanswm y gwared / (diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn	30.9	(117.4)
(Credyd)/tâl y ddarpariaeth pensiwn USS	(55.2)	92.9
Colled actiwaraidd ar bensiynau	40.0	9.1
Gwared/(Diffyg) cyn enillion/(colledion) eraill	**15.7**	**(15.4)**
Enillion/(colledion) eraill	(1.6)	8.5
Gwarged gweithredu sylfaenol /(diffyg)	**14.1**	**(6.9)**

Mae'r datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020 yn cyfuno canlyniadau'r Brifysgol, ei his-gwmni University College Cardiff Consultants Limited, a'r mentrau ar y cyd rhwng Compound Semiconductors Centre Limited a Cardiff Medicentre.

Darpariaethau pensiwn

Mae cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), y mae Prifysgol Caerdydd yn aelod gyflogwr ohono, yn rhoi pensiynau i staff academaidd a phroffesiynol. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y cynllun ddiffyg o £3.6bn. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr USS sefydlu cynllun adfer, ac mae cyfran Prifysgol Caerdydd wedi'i leihau o £140.8m i £84.8m. Bydd y gost cyflogaeth ychwanegol honno'n cael ei thalu dros y 14 blynedd nesaf ar ffurf cyfraniadau ychwanegol y cyflogwr. Am fod hwn yn ofyn cytundebol wrth ddyddiad y fantolen, mae rheolau cyfrifyddu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol ddarparu ar gyfer yr atebolrwydd cyfan, sy'n gostwng ein cronfeydd wrth gefn.

Mae Ymddiriedolwyr yr USS wedi cytuno ar brisiad pellach ar 31 Mawrth 2020 sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd ond sy'n debygol o arwain at ddiffyg sylweddol. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y ddarpariaeth gyfredol o £84.8m a fydd yn cael ei adlewyrchu yn natganiadau ariannol y Brifysgol ar gyfer 2020/21.

Yn ogystal â'r symudiadau i ddarpariaeth cynllun pensiwn USS, mae'r Brifysgol hefyd wedi gorfod rhoi £43m yn ychwanegol ar gyfer cynlluniau CUPF ac LGPS, gyda £40m ohono'n ymwneud â cholled actiwaraidd.

Ffioedd Myfyrwyr (£m) a Myfyrwyr Cyfwerth ag Amser Llawn (000oedd)



Mae incwm wedi tyfu 5.6%, yn bennaf o ganlyniad i dwf mewn myfyrwyr rhyngwladol

Er gwaethaf effaith pandemig COVID-19 yn hwyrach yn y flwyddyn ariannol, roeddem yn gallu tyfu incwm ffioedd dysgu o 6.25% i £297m. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd gwerth 12% yn ein niferoedd myfyrwyr tramor.

Mae nifer y myfyrwyr israddedig wedi parhau fwy neu lai ar yr un lefel, ond mae cynnydd mewn myfyrwyr ôl-raddedig cartref a addysgir, a'r holl ffioedd tramor wedi cyfrannu at y cynnydd o £17.5m mewn ffioedd dysgu.

Mae ein 26,219 o fyfyrwyr yn cynnwys y canlynol:

Nifer y myfyrwyr	2019/20	2018/19
Israddedigion	19,301	18,960
Ôl-raddedig a Addysgir	5,209	4,555
Ymchwil Ôl-raddedig	1,709	1,539
Cyfanswm	**26,219**	**25,054**
DU a'r UE	20,967	20,359
Dramor	5,252	4,695
Cyfanswm	**26,219**	**25,054**

Incwm yn ôl Categori £m



Yn sgil ein grantiau rheolaidd gan CCAUC, adenillwyd yr holl grant addysgu a adlewyrchir yn y cynnydd o £8.8m i £59.7m. Mae incwm grant hefyd yn adlewyrchu'r gyfrifeg am £13m o grantiau a dderbyniwyd tuag at brosiectau gwariant cyfalaf mawr.

Yn 2019/20, cofnododd y Brifysgol ei lefel uchaf erioed o ddyfarniadau ymchwil newydd, sef £150m. Er y derbynnir y rhain dros nifer o flynyddoedd, mae'n gymeradwyaeth i'w chroesawu i'n strategaeth. Effeithiodd COVID-19 ar incwm grant gwerth £112.8m yn y flwyddyn, yn ogystal â'n gallu i ddefnyddio labordai, yn enwedig mewn perthynas ag ymchwil a ariennir gan elusen.

Gostyngodd incwm arall ychydig i £74.2m ac mae'n adlewyrchu effaith COVID-19, yn enwedig gostyngiad o 28% ym mhreswylfeydd myfyrwyr, arlwyo ac incwm o gynadleddau. Lliniarwyd hyn gan incwm grant ychwanegol gwerth £6m, a derbyniwyd £3m o gynllun cadw swyddi'r Llywodraeth.

Gwariant yn ôl Categori %



Rheolwyd gwariant yn weithredol drwy gydol y flwyddyn

Mae cyfanswm y gwariant, heb gynnwys darpariaeth pensiwn USS a'r Cynllun Diswyddo Gwirfoddol, wedi cynyddu 1.7% i £554.8m.

Mae nifer y staff yn gyffredinol wedi lleihau yn ystod y flwyddyn gan adlewyrchu effaith cynllun diswyddo gwirfoddol y flwyddyn flaenorol a'r rheolaethau recriwtio a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn.

Costau staff yw prif faes gwariant y Brifysgol o hyd, ac maent wedi cynyddu 4.4% yn y flwyddyn gan adlewyrchu dyfarniad cyflog o 1.8% y cytunwyd arno yn genedlaethol a chynnydd o 12.8% mewn cyfraniadau pensiwn.

Gwelwyd gostyngiad gwerth 3.0% yn y costau gweithredu eraill yn ystod y flwyddyn yn bennaf oherwydd effaith cyfyngiadau symud COVID-19 ar weithgareddau yn ystod ail hanner y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom fuddsoddi £2.4m yn ein hymateb i bandemig COVID-19, a gwnaed buddsoddiad sylweddol pellach yn 2020/21.

Gwnaethom gynnal gwarged arian parod weithredol er mwyn cefnogi buddsoddiad yn y dyfodol

Cyflawnodd y Brifysgol warged llif arian gweithredu o £37.2m (6.5% o incwm). Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd y Brifysgol £104m mewn adeiladau ac offer, a £88m ohono yn natblygiad y campws arloesedd,

Newid mewn Arian Parod a Buddsoddiadau Wrth Gefn £m



Canolfan Bywyd y Myfyrwyr a'r Ysgol Pensaernïaeth. O ganlyniad, gostyngodd cronfeydd arian parod a buddsoddi wrth gefn £55m i £341m.

£304.5m oedd cyfanswm y benthyciadau ar ddiwedd y flwyddyn, a £293.7m oedd cyfanswm y bond cyhoeddus. 3.1% y flwyddyn yw'r llog sydd arno ac mae'n ad-daladwy yn 2055. Mae Moody's wedi asesu'r bond fel A1 gyda rhagolwg sefydlog.

Mae ein buddsoddiadau a'n gwaddodion yn parhau'n sefydlog

Er gwaethaf y cynnwrf ym marchnadoedd stoc y byd, mae ein rheolwyr buddsoddi wedi sicrhau bod asedau buddsoddi a gwaddol y Brifysgol yn parhau'n sefydlog. Erbyn diwedd 2019, rhoddodd y Brifysgol y gorau i'w phortffolio o fuddsoddi mewn cwmnïau tanwydd ffosil.

Mae gan y Brifysgol fantolen gref

Ar 31 Gorffennaf 2020, roedd gan y Brifysgol asedau net cyfunol o £618m (2019 £587m), a gynrychiolwyd gan ei chronfeydd wrth gefn, er bod rhan sylweddol o hynny wedi'i hymrwymo mewn adeiladau newydd, ac adnewyddu eiddo presennol.

Mae'r Brifysgol wedi rheoli heriau niferus 2020 yn llwyddiannus oherwydd brwdfrydedd ac ymrwymiad sylweddol ein staff. Er na chânt eu hadlewyrchu ar fantolen y Brifysgol, ein staff yw ein hased pwysicaf a mwyaf gwerthfawr o hyd.

Risgiau sylweddol i ddod o hyd

Dyma gyfnod heb ei debyg o'r blaen i addysg uwch wrth i ni symud i ffyrdd newydd o addysgu a gweithio. Mae ein model gweithredu yn newid wrth i ni fynd i'r afael â'r nifer o heriau sylweddol sy'n wynebu'r Brifysgol ar hyn o bryd a'r rhai sydd i ddod. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol.

Ers dechrau mis Ebrill, mae'r Brifysgol wedi symud o reoli digwyddiad mawr i weithrediadau adfer busnes cynaliadwy gan ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau allweddol sef iechyd a lles ein staff a'n myfyrwyr, cynaliadwyedd ariannol yn enwedig incwm ffioedd, y sylfaen gostau a'r sefyllfa o ran arian parod, bodlonrwydd y myfyrwyr a'u profiad, grantiau a chontractau ymchwil a'n cenhadaeth ddinesig.

Mae Bwrdd Gweithredol y Brifysgol wedi cynnal adolygiad o'r prif risgiau sy'n ein hwynebu yn rheolaidd. Dengys y prif risgiau i'r Brifysgol a sut maen nhw'n cael eu lliniaru yn y tabl ar dudalennau 16 i 17.

Mae'r rhagolwg ariannol yn parhau i fod yn ansicr

Bydd 2020/21 yn flwyddyn anodd iawn wrth i ni fynd i'r afael â heriau dull cyfunol o addysgu, ansicrwydd ynghylch recriwtio myfyrwyr tramor, costau ychwanegol cynnal campws diogel a chyfyngiadau symud pellach.

Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld diffyg gweithredu sylweddol yn 2020/21, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn nifer myfyrwyr tramor ac incwm ffioedd dysgu. Yn ffodus, mae gan y Brifysgol fantolen gref a fydd yn ei chefnogi dros y flwyddyn academaidd nesaf.

Dros y 12 i 18 mis nesaf, byddwn yn cwblhau ein buddsoddiadau cyfalaf mawr er mwyn cefnogi profiad y myfyrwyr a'n gweithgareddau ymchwil ac arloesedd. Bydd yr ychwanegiadau hyn yn ein galluogi i ni wneud cryn newidiadau i'n hystâd.

Heb frechlyn yn y flwyddyn nesaf, rydym yn rhagweld cyfnod adfer hirach ac arafach a fydd yn gofyn i ni wneud newidiadau pellach i'n model gweithredu er mwyn caniatáu i ni ddychwelyd i'n lefelau blaenorol o berfformiad ariannol.

Er gwaethaf yr ansicrwydd mawr y mae'r Brifysgol yn ei wynebu, mae'r Brifysgol mewn sefyllfa gref i dynnu drwyddi yn yr hinsawdd allanol ansicr, ac adeiladu ar ei statws a'i dyheadau fel Prifysgol uchelgeisiol ac arloesol.

Maes y risg	Disgrifiad o'r risg	Rheoli risg
Lles a llesiant staff	Nid yw'r Brifysgol yn gallu cynnal ei dyletswydd gofal i staff.	Datblygwyd gweithdai lles i gefnogi staff yn ystod yr amser hwn a chyhoeddir negeseuon wythnosol i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff. Mae'r ymgysylltiad a'r adborth ar y gwasanaethau a gynigiwyd wedi bod yn gadarnhaol gyda phwyslais cynyddol ar iechyd meddwl yng nghyd-destun COVID-19. Mae tasglu gweithrediadau dychwelyd i'r campws ar waith i oruchwylio'r agweddau gweithredol ar amgylchedd gweithio diogel i staff sy'n dychwelyd i'r campws. Mae gorchuddion wyneb y gellir eu hailddefnyddio wedi'u caffael ar gyfer staff sy'n dychwelyd i'r campws. Mae offer ychwanegol, gan gynnwys fisorau, hefyd wedi'u caffael. Mae asesiadau DSE ar gyfer y staff hynny nad ydynt yn gweithio ar y campws yn cael eu cynnal. Mae'r Brifysgol yn sefydlu ei gwasanaethau sgrinio coronafeirws ei hun i brofi staff a myfyrwyr ansymptomatig ar y campws.
Lles a llesiant myfyrwyr	Nid yw'r Brifysgol yn gallu cynnal ei dyletswydd gofal i fyfyrwyr.	Datblygwyd Ymrwymiad Cymunedol i'w fabwysiadu gan staff a myfyrwyr (fel rhan o brosesau cofrestru/ailgofrestru) sy'n hyrwyddo hunan-reoleiddio mesurau diogelwch COVID (pellter cymdeithasol o 2m n gwisgo gorchuddion wyneb mewn adeiladau). Cyflwynwyd Cyswllt Myfyrwyr, rheolwr ymholiadau myfyrwyr newydd, sy'n cynnwys ymateb ddydd a nos trwy ChatBot. Mae platfform ymgyfarwyddo myfyrwyr newydd wedi'i gaffael a'i lwytho â chynnwys ar gyfer myfyrwyr newydd gyda gwybodaeth allweddol ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd ar fewnrwyd y myfyrwyr. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu ei gwasanaethau sgrinio coronafeirws ei hun i brofi staff a myfyrwyr ansymptomatig ar y campws.
Cynaliadwyedd Ariannol	Mae costau gweithredol a chynlluniau cyfalaf y Brifysgol yn gwrthbwyso'r incwm y gall y Brifysgol ei gynhyrchu, neu'r incwm y mae'n ei gael ar ffurf grantiau, gan ei gwneud yn ariannol anghynaladwy.	Mae'r Brifysgol yn arfer modd manwl o reoli'r gyllideb, ac mae gweithdrefnau monitro ar waith. Cyflwynwyd cyllidebu cwbl gynhwysfawr ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. Mae trafodaethau rheolaidd rhwng adrannau Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr a Chyllid i fodelu incwm ffioedd. Mae prosiectau Ymchwil a Newid yn cael eu hasesu ar gyfer enillion ar fuddsoddiad i wneud yn siŵr bod y buddiannau disgwyliedig yn cael eu cyflawni. Mae ymrwymiadau gwario newydd wedi'u lleihau drwy reolau recriwtio, gohirio gwariant cyfalaf ac ailystyried cyflymder prosiectau trawsnewid. Trwy gydol y pandemig presennol, mae aelodau'r Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol wedi cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r sefyllfa ariannol a chamau lliniaru, gan gynnwys creu refeniw, rheoli costau, rheoli arian parod ac opsiynau o ran cyllido.
Rhaglen Gyfalaf	Nid yw'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei chyflawni yn ôl amser, cyllideb na manyleb.	Mae pob rhaglen gyfalaf yn destun cyllidebau manwl achos busnes a monitro costau drwy fyrddau llywio unigol a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol. Mae adroddiadau cynnydd ynghylch prosiectau cyfalaf, gyda chynlluniau gweithredu manwl i fynd i'r afael â llithriadau a chofrestrau cyfunol o risgiau i bortffolios (gyda chamau lliniarol) yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Grwpiau Portffolio at ddibenion adolygu a thrafod. Cyflwynir adroddiad cyllid i bob Grŵp Portffolio yn tynnu sylw at unrhyw bwysau cyllidebol posibl a gor-redeg yn fisol, gan gynnwys manylion am risgiau/dadansoddiadau am y gyllideb wrth gefn.

Maes y risg	Disgrifiad o'r risg	Rheoli risg
Recriwtio Myfyrwyr	Mae'r Brifysgol yn methu denu a dal gafael ar nifer strategol ddigonol o fyfyrwyr amrywiol ac o safon, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr o'r UE o safon uchel.	Mae Grŵp Strategaeth Recriwtio a Derbyn y Brifysgol wedi dirprwyo awdurdod i gymryd camau strategol o ran recriwtio, i wneud yn siŵr bod targedau o ran myfyrwyr newydd yn cael eu bodloni. Caiff nifer y myfyrwyr eu hadolygu a'u monitro gan y Grŵp Strategaeth Recriwtio a Derbyn yn rheolaidd i sicrhau bod gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ddarlun clir ar y cofrestriadau a ragwelir. Gweithgareddau trosi ysgolion/colegau gan gynnwys cyfathrebu â deiliad cynnig/teithiau ar-lein, ymgyrchoedd galw/Unibuddy. Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno mesurau fel ymestyn ei dyddiadau cyrraedd yn hwyr i ddarparu ar gyfer oedi/aflonyddwch ar deithiau a chyflwyno Polisi Astudio o Bell sy'n caniatáu i fyfyrwyr astudio o bell ar gyfer semester un ar fwyafrif y rhaglenni. Mae cynlluniau ar waith i ystyried gwneud y mwyaf o recriwtio o'r UE o fis Ionawr 2021 yn dilyn cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer myfyrwyr yr UE ar ôl y cyfnod pontio.
Gweithgarwch ac incwm ymchwil	Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau ymchwil y Brifysgol, gan leihau incwm ymchwil	Rydym yn gweithio gyda chyllidwyr, trwy Grŵp Russell, ynghylch yr angen am hyblygrwydd o ran terfynau amser ymgeisio yn ogystal â monitro newidiadau i derfynau amser galwadau yn y dyfodol a diweddaru ein cymuned ymchwil. Yn ystod y cyfyngiadau symud llym, nodir ymchwil hanfodol er mwyn ei chynnal ar y campws, a datblygwyd gweithgareddau ymchwil o bell lle bo'n bosibl. Gellir ailadrodd hyn pe bai cyfyngiadau symud pellach. Rhoi Grŵp Goruchwylio Ariannu ar waith i fabwysiadu dull strategol o ran rheoli perthnasoedd ag arianwyr, casglu gwybodaeth, datblygu ceisiadau ac adolygiadau sefydliadol gan gymheiriaid, gyda'r nod o wella'r broses o ymgysylltu ag arianwyr. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r sefyllfa ariannu yn dilyn cyfnod pontio Brexit.
Parhad busnes	Ni all y Brifysgol gynnal ei thasgau gweithredol allweddol yn ystod amodau sy'n newid yn barhaus.	Mae'r Brifysgol wedi sefydlu sawl tasglu i ddelio â'r amodau amrywiol sy'n ein hwynebu, gan gynnwys dychwelyd i weithrediadau campws a chlystyrau o achosion pellach. Mae'r tasgluoedd hyn yn adolygu ac yn ystyried yr holl benderfyniadau gweithredol i'w cymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol.
Profiad Myfyrwyr	Ni all y Brifysgol ddarparu profiad dysgu o ansawdd uchel i'w myfyrwyr.	Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno Fframwaith Dysgu Digidol gyda Gwasanaeth Cefnogi Addysg Ddigidol newydd. Cyflwynwyd modiwl ar ddysgu digidol yn sesiwn ymgyfarwyddo ar-lein y Brifysgol i fyfyrwyr. Cytunwyd ar y polisi astudio o bell i alluogi myfyrwyr i ofyn i Ysgolion gymeradwyo astudio o bell ar gyfer semester un neu gyfnodau byrrach o amser. Cytunwyd ar yr egwyddorion a'r dull ar gyfer cefnogi'r profiad i fyfyrwyr mewn llety yn ystod 2020-2021, gan gynnwys ystyriaethau iechyd a diogelwch perthnasol. Rydym wedi cytuno ar drefniadau ar gyfer arlwyo a chwaraeon ar y campws.

Robert Williams
Prif Swyddog Ariannol
23 Tachwedd 2020

Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol

Mae statws cyfreithiol y Brifysgol yn deillio o Siarter Frenhinol a ddyfarnwyd yn y lle cyntaf gan y Frenhines Victoria ym 1884 i sefydlu Coleg Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy. Cymeradwywyd y siarter bresennol (a elwir yn Siarter Atodol) yn 2004, ac mae'n nodi diben a phwerau'r Brifysgol. Mae egwyddorion sylfaenol wedi'u hymgorffori ynddo, megis pŵer y Brifysgol i addysgu, arholi, cynnal ymchwil a dyfarnu graddau Nodir ei gwrthrychau, ei phwerau a'i fframwaith llywodraethu yn y Siarter a'i statudau ategol, ac fe gymeradwyodd y Cyfrin Gyngor y diwygiadau diweddaraf iddi yn 2015. Cofrestrodd y Brifysgol fel elusen yn 2010 (1136855).

Mae'r Siarter a'r Statudau yn mynnu bod gan y Brifysgol dri chorff ar wahân. Mae gan bob un o'r rhain swyddogaethau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir er mwyn goruchwylio a rheoli ei gweithgareddau:

Y Cyngor

Y Cyngor yw'r corff llywodraethol, ac yn rhinwedd hynny'n brif awdurdod y Brifysgol, sy'n golygu mai'r Cyngor, yn y pen draw, sy'n atebol am ymddygiad a gweithgaredd y Brifysgol a'i chynrychiolwyr. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol ac am gytuno ar gyfeiriad strategol cyffredinol y Brifysgol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes yn unol â'r egwyddorion Nolan a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth) a gyda'r arweiniad a ddarperir i brifysgolion gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion yn ei Gôd Llywodraethu Addysg Uwch a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014 ac adolygwyd ym mis Mehefin 2018.

Wrth lunio'r datganiad hwn, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi sylw i'r canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau.

O ran y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020, gall y Cyngor ddatgan:

(i) bod ymarfer y Brifysgol yn cyd-fynd â phob elfen o'r Côd Ymarfer Llywodraethu; a

(ii) bod polisïau ac arferion codi arian y Brifysgol wedi'u halinio'n llawn â'r newidiadau mewn gofynion o ganlyniad i'r diwygiadau i'r Côd Ymarfer Codi Arian.

Mae'r Brifysgol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd y Cyngor a chynhaliodd adolygiad allanol yn 2017 o dan ofal y Good Governance Institute. Daeth yr adolygiad allanol i'r casgliad bod y Brifysgol yn cydymffurfio'n llawn â Chôd Llywodraethu Addysg Uwch CUC o ran ei fframwaith llywodraethu.

Gwnaed llawer o argymhellion yn dilyn yr adolygiad, er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym Gyngor addas i'r diben sy'n gweithredu fel busnes ac yn ymatebol i randdeiliaid pwysig, ochr yn ochr â gwarchod traddodiadau a gwerthoedd hirdymor y Brifysgol. Caiff yr argymhellion sy'n weddill o adolygiad 2017 eu hystyried ochr yn ochr â'r argymhellion o sawl adolygiad arall fel y nodir isod. Mae disgwyl i'r adolygiad cylchol nesaf o effeithiolrwydd y Cyngor gael ei gynnal yn 2020/21. Bydd hyn hefyd yn rhan o'r gwaith i fynd i'r afael â chanfyddiadau archwiliad mewnol 2019/20 o'r trefniadau llywodraethu.

Yn 2019, cynhaliodd y Brifysgol adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu dan arweiniad y Rhag-ganghellor, y Parchedig Ganon Gareth Powell. Adroddwyd argymhellion Adolygiad Powell i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2019. Aeth Gweithgor a'r Pwyllgor Llywodraethu ar drywydd nifer ohonynt yn ystod 2019/20, ac mae'r gwaith yn parhau.

Trafodwyd Adroddiad Adolygiad Camm yn y Pwyllgor Llywodraethu ym mis Mai 2020. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion Cymru ac mae'n parhau i weithredu argymhellion (lle nad yw'r Brifysgol eisoes yn cyd-fynd â nhw) fel blaenoriaeth ar gyfer 2020/21.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o fod yn agored, gonest ac atebol ac mae'n ceisio gwneud ei gwaith mewn modd rhesymol. Mae ganddi bolisi Datgelu er Lles y Cyhoedd er mwyn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill y Brifysgol i godi pryderon sy'n berthnasol i'r cyhoedd.

Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor yn dod o du allan i'r Brifysgol (aelodau lleyg), ac un o'r aelodau hyn sy'n cael ei ddewis i fod yn Gadeirydd. Mae aelodau'r Cyngor yn cynnwys staff a myfyrwyr hefyd. Caiff aelodau lleyg y Cyngor eu recriwtio mewn modd agored, teg a thryloyw, a rhoddir sylw dyledus i gydraddoldeb ac amrywiaeth, yr angen i gydbwyso sgiliau ac arbenigedd, yn ogystal â lleoliad daearyddol. Y Pwyllgor Llywodraethu sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses recriwtio ac argymell aelodau lleyg newydd i'r Cyngor eu cymeradwyo.

Nid oes unrhyw aelod lleyg yn cael unrhyw daliad am y gwaith y maent yn ei wneud i'r Brifysgol ond ad-delir treuliau. Wrth gael eu penodi i'r Cyngor, gofynnir i aelodau lenwi cofnod ar gyfer y gofrestr buddiannau.

Mae'r gofrestr buddiannau bresennol ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan:

https://www.cardiff.ac.uk/cy/about/organisation/governance/council

Drwy gydol blwyddyn academaidd 2019/20, cyfarfu'r Cyngor saith o weithiau, gan gynnwys tri chyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod busnes eithriadol a phandemig COVID-19.

Yn ystod y cyfnod hwn, cymeradwyodd y Cyngor nifer o achosion busnes, cyfeiriad strategol wedi'i adolygu a phenderfyniadau a wnaed ar draws nifer o weithgareddau'r brifysgol i gynnwys ymchwil ac arloesedd, a thrafod mesurau mewn ymateb i ddata a gasglwyd o'r Arolwg Staff a'r Adolygiad Gwella Ansawdd. Ar ddiwedd 2019/20, mae'r Cyngor wedi goruchwylio ymateb parhaus y Brifysgol i'r pandemig COVID-19.

Y Senedd

Mae'r Senedd wedi'i sefydlu gan Siarter y Brifysgol, ac mae'n ei gwneud yn gyfrifol am: 'Trefnu materion academaidd y Brifysgol, o ran addysgu yn ogystal ag ymchwil' ac mae'n penodi aelodau o blith staff academaidd a myfyrwyr y Brifysgol. Ei rôl yw cyfarwyddo a rheoleiddio gwaith addysgu ac ymchwil y Brifysgol, i wneud yn siŵr bod y Brifysgol yn cyflawni ei hamcanion academaidd.

Cyfarfu'r Senedd deirgwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20. Roedd meysydd busnes allweddol yn cynnwys ystyried y Fframwaith ar gyfer amrywiadau

i raglenni ar gyfer 2020/21 a ysgogwyd gan weithredu diwydiannol a phandemig COVID-19, ail-lunio'r Ffordd Ymlaen 2019-2023 ac ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb, a amlygwyd gan ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys.

Y Llys

Mae'r Llys yn gorff mawr, ffurfiol yn bennaf, ac mae gan ei aelodau rôl lysgenhadol yn fwy na dim. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Llys yn dod o du allan i'r Brifysgol. Byddant yn cynrychioli'r gymuned leol a chyrff dynodedig eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol. Mae'r aelodau hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr staff (academaidd ac anacademaidd) a myfyrwyr y Brifysgol.

Mae'r Llys yn cwrdd unwaith y flwyddyn fel arfer i dderbyn adroddiad blynyddol y Brifysgol a'r datganiadau ariannol wedi'u harchwilio. Canghellor y Brifysgol yw cadeirydd y Llys. Cyfarfu'r Llys ym mis Ionawr 2020.

Swyddog Atebol

Yr Is-Ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae'n atebol i'r Cyngor am gynnal a hybu effeithlonrwydd a threfn dda'r Brifysgol.

O dan delerau'r memorandwm ariannol ffurfiol rhwng y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr Is-Ganghellor yw swyddog cyfrifo'r Brifysgol ac yn rhinwedd honno, gallai gael cais i ymddangos gerbron Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cymru.

Pwyllgorau

Mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar prif bwyllgor, ac mae'n penodi eu haelodau i oruchwylio agweddau amrywiol ar fusnes y Brifysgol; y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (a elwir yn y Pwyllgor Polisïau ac Adnoddau eisoes), y Pwyllgor Llywodraethu, y Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau (a elwir yn y Pwyllgor Archwilio eisoes).

Mae gan bob un o'r pwyllgorau hyn gyfansoddiad ffurfiol, cylch gorchwyl ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau lleyg o'r Cyngor, ac aelod lleyg o'r Cyngor yn Gadeirydd.

Pwyllgor Polisïau ac Adnoddau

Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (oedd yn arfer cael ei alw'n Bwyllgor Polisïau ac Adnoddau) yn cynnwys aelodau annibynnol y Cyngor, aelodau o Fwrdd Rheoli'r Brifysgol a swyddogion etholedig o Undeb y Myfyrwyr.

Cylch gwaith cyffredinol y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yw bod yn bwyllgor ariannol i'r Brifysgol a gwneud yn siŵr bod adnoddau wedi'u halinio â Chynllun Strategol y Brifysgol.

Mae'r pwyllgor yn goruchwylio busnes y ddau is-bwyllgor sy'n archwilio ystadau a gweithgareddau datblygu isadeiledd y Brifysgol, a goruchwylio'r broses o reoli gweithgareddau buddsoddi a bancio'r Brifysgol, yn ôl eu trefn.

Cyfarfu Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau y Brifysgol chwe gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, gan gynnwys dau gyfarfod eithriadol i adolygu cyllideb 2020/21 a chynllun ariannol 2019/20, ac i graffu ar achos busnes, yn ôl eu trefn.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol, cyllidebau a chynlluniau ariannol y Brifysgol, ochr yn ochr â'r Cynllun Strategol. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried nifer o achosion busnes buddsoddiad cyfalaf, a'u hargymell i'r Cyngor.

Pwyllgor Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu yn cynnwys cynrychiolwyr o aelodau annibynnol y Cyngor, aelodau o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, aelodau o'r Senedd; a Swyddog Etholedig o Undeb y Myfyrwyr.

Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu bedair gwaith yn ystod 2019/20. Yn ogystal ag ystyried argymhellion Adolygiad Powell fel y cyfeirir atynt uchod, ystyriodd y pwyllgor gydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg, GDPR, PREVENT, CMA, y Ddeddf Llwgrwobrwyo, y Ddeddf Meinweoedd Dynol, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Pwyllgor Taliadau

Mae gan y Pwyllgor Taliadau aelodaeth gwbl annibynnol sy'n cynnwys pedwar o aelodau lleyg y Cyngor (sy'n cynnwys y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd).

Y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar daliadau'r mwyafrif o'r staff uwch, gan gynnwys yr Is-Ganghellor. Drwy gydol 2019/20, cyfarfu'r Pwyllgor Taliadau deirgwaith.

Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau

Mae holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau (oedd yn arfer cael ei alw'n Bwyllgor Archwilio) yn annibynnol ar reolwyr y Brifysgol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys aelodau lleyg y Cyngor.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bum gwaith yn ystod 2019/20. Roedd yr archwilwyr allanol yn bresennol i ystyried y Datganiadau Ariannol blynyddol a'r llythyr rheoli yn ogystal â'r cynllun archwilio blynyddol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl, gan gynnwys y rheini o Archwilio Mewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella systemau rheoli mewnol y Brifysgol yn ogystal ag ymatebion a chynlluniau gweithredu'r rheolwyr. Nid yw'r Is-Ganghellor na'r uwch-weithredwyr eraill yn aelodau o'r Pwyllgor ond maent yn cael dod i'w gyfarfodydd drwy wahoddiad.

Rheolaeth

Ac yntau'n Brif Weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-Ganghellor gyfrifoldeb dros ddatblygu strategaeth sefydliadol, adnabod a chynllunio datblygiadau newydd, a llunio ethos sefydliadol. Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor, y Rhag Is-Gangellorion a'r uwch-swyddogion proffesiynol yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd i'r agweddau hyn o'r gwaith, ond y Cyngor sydd â'r prif awdurdod.

Prif Risg a System Reoli Fewnol

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Brifysgol. Ar yr un pryd, mae'n diogelu arian y cyhoedd yn ogystal â chronfeydd ac asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt.

Mae'r system reoli fewnol wedi'i chreu i reoli yn hytrach na dileu'r risg o beidio â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion;

felly, dim ond sicrwydd rhesymol y gellir ei roi yn hytrach na sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system reoli fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i dylunio i amlygu'r prif risgiau a allai atal polisïau, nodau ac amcanion y Brifysgol rhag cael eu cyflawni. Y nod yw gwerthuso natur a maint y risgiau hyn a'u rheoli yn effeithiol.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses hon wedi bod ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau CCAUC.

Fel y corff llywodraethu, y Cyngor sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reoli fewnol. Mae'n cwrdd yn rheolaidd i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol y Brifysgol ac mae'n cael adroddiadau sicrwydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risgiau ynghylch rheolaeth fewnol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rigiau yn cael adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol. Rhoddir barn annibynnol ar bob adroddiad sy'n ymwneud â digonolrwydd ac effeithiolrwydd system reoli fewnol y Brifysgol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Cyflwynir crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd gan Archwiliad Mewnol mewn Adroddiad Mewnol. Mae hyn yn rhoi barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau'r Brifysgol ar gyfer darpariaeth rheoli risgiau, rheoli mewnol, llywodraethu a gwerth am arian ac ansawdd data. Gan ystyried cwblhau'r cynllun archwilio diwygiedig a chymeradwy ar gyfer 2019/20 a gwybodaeth ategol, ystyrir bod trefniadau'r Brifysgol yn ddigonol ac yn effeithiol ar y cyfan.

Nodwyd eithriadau mewn dau faes y mae uwch-reolwyr yn mynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd:

- Nodwyd heriau i reoli risgiau, rheolau llywodraethu, a rheolau mewnol, sy'n benodol i raglen gyfalaf strategol sydd ar y gweill. Hysbyswyd CCAUC am y mater hwn fel digwyddiad adroddadwy.
- Nodwyd gwendidau o ran rheolau caffael. Penodwyd Cyfarwyddwr Caffael Dros Dro yn weithredol o 3 Awst 2020, sydd yn y broses o fynd i'r afael yn systematig â'r gwendidau a nodwyd a chryfhau aeddfedrwydd y swyddogaeth gaffael.

Yr Is-Ganghellor yw Swyddog Atebol y Brifysgol, sy'n gyfrifol am roi sicrwydd clir i CCAUC fod gan y Brifysgol bolisi effeithiol o reoli risgiau. Ysgrifennydd y Brifysgol yw'r Prif Swyddog Risg, sy'n gyfrifol am hyrwyddo dulliau effeithiol o reoli risgiau ar draws y Brifysgol. Mae gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol gyfrifoldeb dros reoli risgiau ar draws y Brifysgol, cytuno ar barodrwydd y Brifysgol i gymryd risg, diweddaru cofrestr risg strategol y Brifysgol a hysbysu'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau, y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Cyngor ynghylch risgiau drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu system hierarchaidd ar gyfer rheoli risg. Caiff risgiau o fewn timau a phrosiectau unigol eu cyflwyno i'r ysgol neu'r adran berthnasol ar sail chwarterol. Bydd yr ysgolion a'r adrannau wedyn yn cyfeirio unrhyw risgiau allweddol at y Colegau a Bwrdd y Gwasanaethau Proffesiynol i'w hystyried a'u cynnwys ar eu cofrestr risg.

Byd y Colegau a Bwrdd y Gwasanaethau Proffesiynol yn mynd ati wedi hynny i roi gwybod i Fwrdd Gweithredol y Brifysgol am eu cofrestrau risg ar sail chwarterol. Mae hynny'n gwneud yn siŵr bod risgiau llywodraethu, rheolaeth, ansawdd ac ariannol ar draws y Brifysgol, wedyn, yn cael eu hystyried ar gyfer eu hymgorffori ar gofrestr risg strategol y Brifysgol. Yn ystod pandemig y coronafeirws, addaswyd strwythurau rheoli risgiau i ymateb i anghenion newidiol ar draws gweithgareddau i gynnwys addysgu ac asesu, bywyd myfyrwyr, ymchwil a gweithrediadau. Roedd gan bob un o'r meysydd hyn gofrestrau risg a oedd yn bwydo i gofrestr risg gyffredinol Bwrdd Gweithredol y Brifysgol. Ar gyfer 2020/21, bydd strwythur adrodd risgiau unedig yn cyfuno'r meysydd hyn â systemau ysgolion/adrannau. Caiff risgiau a nodir ar y gofrestr strategol eu rhannu yn is i lawr yr hierarchaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod y camau lliniaru sydd eu hangen yn cael eu gosod.

Mae gan bob aelod o staff ran i'w chwarae wrth warchod y Brifysgol rhag bod yn agored yn ddiangen i risg, boed yn risg i enw da, risg ariannol neu o ran ei gweithgareddau craidd, sef dysgu ac addysgu, ac fe'i hanogir i fod yn ymwybodol o oblygiadau a sgil-effeithiau posibl eu gweithredoedd ar gyfer y Brifysgol.

Datganiad o Fudd Cyhoeddus

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig (rhif 1136855). Ei diben yw creu a rhannu gwybodaeth, ac addysgu er budd pawb. Mae ei Siarter Frenhinol, a ddyfarnwyd yn y lle cyntaf ym 1884, yn nodi ei threfniadau cyfansoddiadol a'i hamcanion. Mae'r amcanion hynny'n ymgorffori'r egwyddor syml o hyrwyddo addysg, gan alluogi'r Brifysgol i gynnal gwaith ymchwil, addysgu, arholi a dyfarnu graddau. Mae'r amcanion hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau i ddatblygu cymeriad myfyrwyr, hybu iechyd a lles – yn enwedig yng Nghymru – a chyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Mae Prifysgol Caerdydd yn aelod o Grŵp Russell o brifysgolion ymchwil ddwys, ac mae o'r farn fod ymchwil sylfaenol yn hanfodol i ddyheadau dynol ac yn hollbwysig o ran datblygu arteffactau, technolegau a gwasanaethau diwylliannol sy'n gwella ansawdd bywyd pawb.

Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau'r Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau Comisiwn yr Elusennau ynghylch sut i adrodd am fudd i'r cyhoedd, yn enwedig ei chanllawiau atodol ynghylch hyrwyddo addysg.

Y Ffordd Ymlaen 2018 - 2023: Mae Ail-lunio COVID-19 yn nodi themâu strategol y Brifysgol, sy'n cael eu crynhoi isod.

Addysg a Myfyrwyr

Mae'r Brifysgol yn cynnig profiad addysgol rhagorol a phrofiad o safon gyson uchel i'n myfyrwyr sy'n cael ei ysgogi gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Ein nod yw gwella dysgu a chefnogi bywyd myfyrwyr.

Yn ystod y cyfnod heb ei debyg o'r blaen gyda COVID-19, darparwyd llawer o agweddau ar ein darpariaeth mewn amgylchedd digidol ac o bell erbyn hyn, ac mae myfyrwyr wedi elwa ar gael cefnogaeth ar-lein barhaus a darpariaeth addysg i'w galluogi i symud ymlaen, graddio a dod o hyd i waith neu astudio ymhellach. Ein blaenoriaethau o hyd yw cynnig profiad o safon uchel i'n myfyrwyr, cynnal safonau academaidd ein graddau a sicrhau diogelwch a lles ein staff a'n myfyrwyr.

Gan adeiladu ar ein hanes cryf o ehangu cyfranogiad, rydym yn parhau i flaenoriaethu'r gwaith o sicrhau bod myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd yn cael mynediad at fanteision addysg uwch, ac mae hyn hefyd ynghyd â gwaith ar gadw myfyrwyr a'u llwyddiant. Yn ein darpariaeth gyfunol, gan gyfuno dulliau wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth â gweithgareddau cyfrifiadurol neu ddarpariaeth ar-lein, mae myfyrwyr yn elwa ar ddull addysgeg o ansawdd uchel tuag at ddysgu digidol sy'n caniatáu iddynt lwyddo, ac i barhau ar eu taith addysg ysbrydoledig.

Ymchwil ac Arloesedd

Mae eleni wedi bod yn eithriadol yn wyneb y pandemig byd-eang. Mae'r Brifysgol, trwy ei gwaith ymchwil, wedi bod yn gweithredu'n gyflym yn ei hymateb ac yn cyfrannu'n weithredol at ymdrechion adfer COVID mewn perthynas â mynd i'r afael â'r afiechyd a brwydro yn erbyn yr heriau cymdeithasol ehangach ar ôl COVID. Rydym wedi parhau i gefnogi ein staff a'n myfyrwyr yn ystod yr amser anodd hwn, gan sicrhau, lle bo hynny'n ddiogel ac yn bosibl, fod ymchwil wedi parhau i ganiatáu i ni gyfrannu at fynd i'r afael â materion byd-eang beirniadol sy'n gofyn am gydweithio ar draws disgyblaethau. Gyda nifer ein dyfarniadau ymchwil ar eu huchaf eleni, mae ein hymchwilwyr yn mynd i'r afael â heriau mawr sy'n wynebu cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd yng Nghymru, yn y DU ac yn fyd-eang, gan gyflawni datblygiadau arloesol mewn meysydd fel clefyd Alzheimer ac iechyd meddwl, lled-ddargludyddion cyfansawdd, tonnau disgyrchiant, newid yn yr hinsawdd a diwydiannau creadigol.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi sefydlu ei hun fel Cartref Arloesedd drwy ddatblygu strategaeth arloesedd newydd gan sicrhau bod effeithiau ei hymchwil yn gwneud gwahaniaeth, gan weithio'n aml mewn partneriaeth â busnesau, y cyhoedd a sefydliadau yn y trydydd sector. Rydym yn buddsoddi mewn cyfleusterau pwrpasol ar gyfer partneriaethau cydweithio arloesol â diwydiant, y llywodraeth a'r gymdeithas ehangach, ac yn gwella cefnogaeth i fyfyrwyr gymryd rhan mewn datblygiadau arloesol a hyfforddiant entrepreneuraidd gan ddefnyddio enghreifftiau bywyd go iawn fel y gallant gyfrannu at dwf yr economi wybodaeth. Yn unol â'n gweithgareddau Cenhadaeth Ddinesig, mae ein hymchwilwyr hefyd yn gweithio gyda chymunedau lleol, gan gefnogi mathau newydd o addysg a newid economaidd-gymdeithasol yn ein rhanbarth.

Rhyngwladol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad byd-eang gyda bron 8,000 (mwy na 23% o gyfanswm corff y myfyrwyr) o fyfyrwyr rhyngwladol (gan gynnwys y rhai o'r UE y tu allan i'r DU) o dros 130 o wledydd ac mae ganddi gysylltiadau ffurfiol gyda dros 300 o sefydliadau ledled y byd. Mae'n cydweithio â phartneriaid busnes ac addysg ledled y byd, gan gynnwys partneriaethau strategol ffurfiol gyda Phrifysgol Xiamen a Phrifysgol Normal Beijing yn Tsieina, Leuven KU yng Ngwlad Belg, Prifysgol Campinas ym Mrasil a Phrifysgol Bremen yn yr Almaen. Mae cysylltiadau cryf y Brifysgol gyda sefydliadau ledled y byd yn golygu bod llawer o'i myfyrwyr yn cael y cyfle i astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor. Mae'n denu'r academyddion a'r ymchwilwyr gorau posibl o bob cwr o'r byd (mae staff rhyngwladol yn ffurfio mwy na 30% o'r corff academaidd), gan wella profiad dysgu'r myfyrwyr a rhoi safbwynt byd-eang i'n hymchwil. Mae ei hymchwilwyr yn cydweithio â phartneriaid ledled y byd i fynd i'r afael â materion byd-eang fel addasu i newid yn yr hinsawdd er mwyn cael gwell diogelwch o ran bwyd a dŵr, lliniaru allyriadau CO2 drwy eu storio mewn dyddodion glo, a phensaernïaeth enetig anhwylderau meddyliol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, maen nhw hefyd wedi troi ei harbenigedd i gefnogi'r ymateb ledled y byd i bandemig COVID-19.

Cenhadaeth Ddinesig

Mewn ymateb i'r argyfwng cymdeithasol ac iechyd a achoswyd gan COVID-19, mae'r Brifysgol wedi ail-lunio ei chenhadaeth ddinesig. Mae wedi ymrwymo i ddefnyddio ei chryfderau ymchwil, ei harbenigedd a'i gwybodaeth i helpu'r llywodraeth, gwasanaethau iechyd a'r gymdeithas ehangach i adfywio ac adnewyddu tirwedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru mewn ymateb i'r pandemig. Bydd cryfderau ymchwil y Brifysgol yn cael eu defnyddio i wella cyfraniadau'r genhadaeth ddinesig at heriau cymdeithasol newydd y mae Cymru'n eu hwynebu, ochr yn ochr ag adfywiad ac adnewyddiad llwyddiannus. Mae cefnogi'r gwaith o greu swyddi newydd yn hollbwysig o ystyried effaith economaidd y feirws. Bydd y Brifysgol, nawr yn fwy nag erioed, yn parhau i gyfrannu at ddatblygiadau newydd ym maes addysg gydag ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau addysg bellach. Mae ei phartneriaeth â'r GIG yn llawer mwy arwyddocaol. Mae gan y Brifysgol ymdeimlad cryf o le yn rhanbarth Caerdydd a de Cymru a bydd yn parhau i wella a dathlu diwylliant Cymraeg ei champws yn unol â'i Strategaeth Gymraeg.

Cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig).

Yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, y Cyngor sy'n gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system effeithiol o reoli mewnol, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno Datganiadau Ariannol archwiliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â'r gyfraith berthnasol.

O dan y gyfraith a rheoliadau eraill, mae'r Cyngor wedi paratoi Datganiadau Ariannol y Brifysgol a'r Grŵp Cyfunol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" ac sy'n gymwys o dan y gyfraith), Siarter Ymgorffori'r Brifysgol, y Cyfarwyddyd Cyfrifon gan CCAUC, y Datganiad o'r Arferion a Argymhellir: Ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, Deddf Elusennau 2011 a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y Brifysgol, y grŵp cyfunol ac o adnoddau cynhyrchu incwm a gwariant y Brifysgol a'r grŵp cyfunol ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas a'u defnyddio'n gyson wedi hynny;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn y Datganiad o Arferion a Argymhellir: Ystyried Addysg Bellach ac Uwch (rhifyn 2019);
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth;
- nodi p'un a yw Safonau Cyfrifyddu perthnasol y DU, sy'n cynnwys FRS 102, wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau o bwys a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail pryderon gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Brifysgol yn parhau mewn busnes.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am warchod asedau'r Brifysgol a'r Grŵp ac am gymryd camau rhesymol er mwyn atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n ddigonol at ddibenion dangos ac esbonio trafodion y Brifysgol a'r Grŵp, a datgelu mor fanwl gywir ag sy'n rhesymol ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r Grŵp, i'w alluogi i wneud yn siŵr bod y Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Yn ogystal, ac o fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng CCAUC a Chyngor y Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, drwy ei Swyddog sy'n Atebol, i lunio Datganiadau Ariannol am bob blwyddyn ariannol unigol gan roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Brifysgol a'i his-gwmnïau ac o'r gwarged neu'r ddyled, datganiad am symudiadau arian wrth gefn a'r llifoedd arian am y flwyddyn honno.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i wneud hyn:

- sicrhau bod arian gan CCAUC, Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyllido eraill yn cael ei ddefnyddio'n unig i'r dibenion y cafodd ei ddarparu yn y lle cyntaf ac yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd â CCAUC; ac unrhyw amodau eraill y gall CCAUC neu unrhyw gorff ariannu arall eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod dulliau rheoli ariannol a rheolaethol priodol ar waith i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill; (gweler rhagor o fanylion o dan Prif Risg a System Reoli Fewnol yn yr adran Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol);
- diogelu asedau'r Brifysgol a'i his-gwmnïau a rhwystro a chanfod twyll; a
- gwneud yn siŵr bod adnoddau a gwariant y Brifysgol a'i his-gwmnïau yn cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae elfennau allweddol system rheolaeth ariannol fewnol y Brifysgol, a luniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a amlinellwyd uchod, yn cynnwys:

- diffiniadau clir o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academaidd ac adrannau gweinyddol a'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt;
- proses gynllunio, a ategir gan gyllidebau incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol manwl, ac mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r gyllideb gyffredinol;
- adolygu canlyniadau ariannol yn rheolaidd, gan gynnwys paratoi adroddiadau am amrywiadau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau rhagdybiaethau;
- gofynion sydd wedi'u diffinio a'u ffurfioli'n glir ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant;
- Rheoliadau Ariannol cynhwysfawr sy'n rhoi manylion y dulliau rheoli a'r gweithdrefnau ariannol ac sydd wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau a'r Cyngor; a
- thîm Archwilio Mewnol y mae ei raglen flynyddol wedi'i hargymell gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau ac wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor.

Er hynny, y cyfan y gall unrhyw system reoli ariannol fewnol ei wneud yw darparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled o bwys.

Ar ran y Cyngor

Yr Athro Colin Riordan
Swyddog Atebol
23 Tachwedd 2020

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gyngor Prifysgol Caerdydd

Adroddiad am archwilio'r datganiadau ariannol

Barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol grŵp Prifysgol Caerdydd a datganiadau ariannol y sefydliad (y "datganiadau ariannol"):

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y Grŵp a'r sefydliad ar 31 Gorffennaf 2020, yn ogystal ag incwm a gwariant, enillion a cholledion, a newidiadau i lif arian y grŵp a'r sefydliad, a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon", a'r ddeddf berthnasol); ac
- wedi'u paratoi'n yn unol â gofynion y Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch ac,
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol (yr "Adroddiad Blynyddol"). Mae'r rhain yn cynnwys: Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2020; y Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Lifoedd Arian, a Datganiadau o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; yn ogystal â nodiadau ar y datganiadau ariannol, sy'n cynnwys disgrifiad o'r polisïau cyfrifyddu pwysig.

Mae ein barn yn cyd-fynd â'n hadroddiadau ar gyfer y Pwyllgor Archwilio.

Sail ein barn

Fe wnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISAs (DU)") a deddfau perthnasol. Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau o dan y Safonau hyn yn yr adran yn yr adroddiad am gyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer archwilio datganiadau ariannol. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi cael gafael arni yn ddigonol ac yn briodol i gynnig sail ar gyfer ein barn.

Annibyniaeth

Rydym yn parhau i fod yn annibynnol ar y grŵp yn unol â gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) ar gyfer endidau rhestredig o ddiddordeb cyhoeddus, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, rydym yn datgan na chafodd gwasanaethau nad ydynt yn cael eu harchwilio, sydd wedi'u gwahardd gan Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC), eu darparu neu'r sefydliad.

Ar wahân i'r rhai a ddatgelir yn nodyn 10 y datganiadau ariannol, nid ydym wedi darparu gwasanaethau nad ydynt yn cael eu harchwilio i'r grŵp neu'r sefydliad yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2019 a 31 Gorffennaf 2020.

Ein dull archwilio



Trosolwg

- Perthnasedd cyffredinol y grŵp: £5.7m (2019: £5.4m), yn seiliedig ar 1% o'r incwm.
- Perthnasedd cyffredinol y sefydliad: £5.7m (2019: £5.4m), yn seiliedig ar 1% o'r incwm.

- Mae'r grŵp yn cynnwys y sefydliad ac un is-gwmni
- Roedd yr endidau a archwiliwyd gennym yn cyfrif am 100% o'r incwm a'r gwariant cyfunol a'r asedau net.

- Risg o dwyll wrth gydnabod refeniw
- Cynlluniau Pensiwn
- Effaith COVID-19.

Cwmpas ein harchwiliad

Wrth ddylunio ein harchwiliad, fe wnaethom bennu'r effaith ac asesu'r risgiau o gamddatganiadau gwirioneddol yn y datganiadau ariannol.

Gallu'r archwiliad i ddod o hyd i anghysondebau, gan gynnwys twyll

Ar sail ein dealltwriaeth o'r sefydliad, fe wnaethom nodi bod y prif risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau'n ymwneud â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd a'r Côd Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a gwnaethom ystyried i ba raddau y gallai peidio cydymffurfio gael effaith go iawn ar y datganiadau ariannol. At hynny, gwnaethom ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y broses o baratoi'r datganiadau ariannol, er enghraifft Deddf Elusennau 2011 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon

a'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd a gyhoeddwyd gan CCAUC. Gwnaethom werthuso cymhelliannau a chyfleoedd rheolwyr o ran camdrafod datganiadau ariannol y grŵp a'r sefydliad yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheoliadau), a dod i'r casgliad bod y prif risgiau'n ymwneud â gorddatgan incwm. Roedd y canlynol ymhlith gweithdrefnau archwilio a ymgymerwyd gan dîm ymgysylltu'r grŵp:

- Adolygiad o ddatgeliadau'r datganiad ariannol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwydd Cyfrifon CCAUC;
- Trafodaethau gyda rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, gan gynnwys ystyried sy'n hysbys, neu yr amheuir o ran peidio cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;
- Herio rhagdybiaethau a dyfarniadau gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol;
- Nodi a phrofi cofnodion mewn cyfnodolion, yn enwedig unrhyw gofnodion mewn cyfnodolion â chyfuniadau cyfrif anarferol.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y prosesau archwilio a ddisgrifir uchod, a pho fwyaf y mae peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn gwyro o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiad ariannol, y lleiaf tebygol y byddwn o fod yn ymwybodol o hynny. At hynny, y risg o beidio canfod camddatganiadau gwirioneddol o achos twyll yn uwch na'r risg o beidio â chanfod un sy'n deillio o wall, am y gallai twyll ymwneud â chuddio'n fwriadol drwy, er enghraifft, ffugio neu gamddatgan yn fwriadol, neu drwy gydgynllwynio.

Materion archwilio allweddol

Y materion archwilio allweddol yw'r materion hynny sydd, ym marn broffesiynol yr archwilwyr, y rhai mwyaf arwyddocaol wrth archwilio'r datganiadau ariannol yn y cyfnod presennol. Mae'r rhain yn cynnwys y risgiau mwyaf arwyddocaol a aseswyd o gamddatganiad gwirioneddol (boed hynny o ganlyniad i dwyll neu beidio) a nodwyd gan yr archwilwyr, gan gynnwys y rhai a gafodd yr effaith fwyaf ar y strategaeth archwilio gyffredinol; sut cafodd adnoddau eu dyrannu yn yr archwiliad; a chyfarwyddo ymdrechion y tîm ymgysylltu. Cafodd y materion hyn, ac unrhyw sylwadau gennym am ganlyniadau ein gweithdrefnau, eu hystyried yng nghyd-destun ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn gyffredinol, ac wrth ffurfio barn arnynt, ac nid ydym yn cynnig barn ar y materion hyn ar wahân. Nid yw hon yn rhestr gyflawn o'r holl risgiau a nodwyd gan ein harchwiliad.

Mater archwilio allweddol	Sut aeth ein harchwiliad i'r afael â'r mater archwilio allweddol
Risg o dwyll wrth gydnabod incwm Nodwyd gennym fod y risg o dwyll mewn perthynas â chydnabod incwm yn risg archwilio arwyddocaol, yn enwedig o ran p'un a oedd hawl gan y grŵp a'r sefydliad i gydnabod incwm. Nid yw'r rhan fwyaf o'r incwm a gafodd ei gydnabod yn y grŵp a'r sefydliad yn gymhleth, a cheir cydnabyddiaeth glir ar eu cyfer. Mae £112.8m o incwm grantiau a chontractau ymchwil (nodyn 4) (2019: £116.0m) wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol, ac ystyriwyd bod mwy o risg i hwn gael ei addasu gan fod amodau cydnabod sy'n ymwneud â pherfformiad yn ymwneud yn benodol â grantiau unigol. Felly, mae perygl y gallai rheolwyr addasu incwm drwy roi ffigwr rhy uchel ar gyfer croniadau neu beidio â datgan gohiriadau incwm yn llawn. Roedd y risg yn berthnasol i'r grŵp a'r sefydliad.	Er mwyn gwneud yn siŵr bod grant ymchwil ac incwm contract yn cael ei gydnabod yn unol ag amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad, cawsom afael ar y cytundebau ariannu ar gyfer sampl o brosiectau er mwyn pennu o dan ba amodau y gellir nodi incwm. Drwy gyfeirio at yr amodau perfformiad a nodwyd, fe wnaethom benderfynu a oedd yr incwm wedi'i nodi yn unol â'r amodau hyn drwy gynnal profion i weld a ddigwyddodd y perfformiad mewn gwirionedd e.e. drwy wirio a fu unrhyw wariant sylfaenol ac a oedd y gwariant hwn yn berthnasol drwy gyfeirio at y trefniadau ariannu. Fe wnaethom ystyried yr effaith a gafodd COVID-19 ar gydnabod incwm ymchwil a rhoi gweithdrefnau ychwanegol ar waith i ddilysu'r hawl i incwm ymchwil. Ni wnaeth ein gwaith nodi unrhyw achosion lle na chyflawnwyd y meini prawf perfformiad.

Mater archwilio allweddol	Sut aeth ein harchwiliad i'r afael â'r mater archwilio allweddol
Cynlluniau pensiwn Gweler nodiadau 21 (Darpariaeth Pensiwn) a 23 (Cynlluniau Pensiwn). Mae'r grŵp a'r sefydliad yn cymryd rhan mewn dau gynllun buddiannau pensiwn wedi'u diffinio gyda rhwymedigaethau net cyfunol o £102.5m (2019: £59.4m). Ceir darpariaeth bellach o £84.8m (2019: £140.8m) ar gyfer ad-dalu diffyg yn y dyfodol mewn perthynas â chynllun buddion aml-gyflogwr, Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS). Caiff y cynllun hwn ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig gan nad oes modd amlygu asedau a rhwymedigaethau pob sefydliad sy'n aelod o'r cynllun ar wahân. Fodd bynnag mae atebolrwydd yn ofynnol o ran cydnabod yr ad-daliadau y mae'r grŵp a'r sefydliad wedi cytuno i'w gwneud i dalu diffygion yn y dyfodol. Pennir yr atebolrwydd drwy anwybyddu'r llifau arian parod yn y dyfodol o dan y cynllun ad-dalu'r diffyg ar gyfradd ostyngol briodol. Mae pob un o'r rhwymedigaethau hyn yn arwyddocaol yng nghyd-destun mantolenni'r Grŵp a'r Brifysgol. I allu prisio rhwymedigaeth y pensiynau, mae angen lefelau arwyddocaol o ddealltwriaeth ac arbenigedd technegol wrth ddewis tybiaethau priodol. Gall newidiadau mewn nifer o'r rhagdybiaethau allweddol (gan gynnwys codiadau cyflog, chwyddiant, cyfraddau disgownt a chyfraddau marwolaeth) gael effaith wirioneddol wrth gyfrifo atebolrwydd. Roedd y risg yn berthnasol i'r grŵp a'r sefydliad.	**Cynllun buddiannau diffiniedig** Cawsom afael ar yr adroddiadau prisio pensiynau ar gyfer y ddau gynllun buddion diffiniedig gan yr actiwari allanol. Gyda chymorth ein harbenigwyr actiwarïaidd mewnol, fe wnaethom gymharu'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth brisio rhwymedigaeth y pensiynau gan yr actiwari allanol yn unol â'n meincnodau a ddatblygwyd yn fewnol. Roedd y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn cyd-fynd â'n meincnodau. Ar gyfer Cynllun Pensiwn Prifysgol Caerdydd, fe wnaethom brofi bodolaeth yr holl asedau pensiwn a'r prisiad ohonynt. Ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro, fe wnaethom brofi cyfrifiad actiwari blaen y cynllun o gyfran asedau'r cynllun sydd i'w phriodoli i'r sefydliad. Ar gyfer y ddau gynllun, fe wnaethom brofi'r data sylfaenol a ddefnyddir i gyfrifo'r atebolrwydd pensiwn diffiniedig. **Atebolrwydd USS** Fe wnaethom gael gafael ar y modelau a ddefnyddir gan y grŵp a'r sefydliad i bennu'r atebolrwydd USS sydd wedi'i gynnwys yn y cyfrifon. Rydym yn defnyddio ein harbenigwyr actiwarïaidd mewnol i wneud yn siŵr bod y gyfradd ostyngol a ddefnyddiwyd i fesur y rhwymedigaeth o fewn ystod dderbyniol. Roeddem yn cytuno bod y prif dybiaethau eraill a ddefnyddiwyd yn y model yn cyd-fynd â dulliau cynllunio a darogan y grŵp a'r sefydliad.
Effaith COVID-19 Fe wnaeth Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ddatgan ar 11 Mawrth 2020 fod COVID-19 yn bandemig byd-eang, ac mae'r ymateb parhaus yn cael effaith na welwyd ei thebyg o'r blaen ar yr economi. Ystyriwyd hyn yn rhan o'r archwiliad. Mae'r Cyngor wedi ystyried y risgiau a gyflwynir gan COVID-19, fel y nodwyd yn yr Adolygiad Strategol Blynyddol, yr Adolygiad Ariannol a nodyn 1 y datganiadau ariannol. Er bod y pandemig wedi amharu ar ganlyniadau'r sefydliadau a'r grŵp yn sgîl yr holl darfu a'r effaith economaidd, daethpwyd i'r casgliad mai prin fu'r effaith ar feysydd fel yr asesiadau o fusnes hyfyw ac adenilladwyedd dyledwyr, yn wahanol i nifer o sefydliadau eraill ym maes addysg uwch. Roedd y risg yn berthnasol i'r grŵp a'r sefydliad.	Rydym wedi rhoi'r gweithdrefnau archwilio canlynol ar waith: • Ailystyried ein hasesiad risgiau; • Cynnal trafodaethau gyda rheolwyr er mwyn deall, mewn termau ansoddol a meintiol, effaith COVID-19 ar weithrediadau'r sefydliad a'r grŵp; • Ystyriwyd yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar feysydd fel buddsoddi a phrisiadau o asedau cynlluniau pensiwn, y gydnabyddiaeth o ymchwil incwm ac adenilladwyedd dyledwyr, a busnes hyfyw; ym mhob achos fe wnaethom roi rhai gweithdrefnau ychwanegol ar waith i ddilysu'r esboniadau a roddwyd ac edrych ar ansicrwydd posibl wrth ddilysu lle bo'n berthnasol, yn ogystal â dilysu'r hawl i incwm ac ystyried unrhyw ddangosyddion sy'n nodi risg ychwanegol o ran adenilladwyedd; ac • Darllenwch ddatgeliadau'r rheolwyr yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol. Ar sail y gweithdrefnau a roddwyd a'r waith, roeddem o'r farn bod y symiau a recordiwyd a'r datgeliadau yn yr Adroddiad Blynyddol yn briodol.

Sut aethom ati i addasu cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom addasu cwmpas yr archwiliad i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni digon o waith i allu rhoi barn ar y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Roedd hyn yn cynnwys ystyried strwythur y grŵp a'r sefydliad, y prosesau cyfrifyddu a rheoli, a'r sector y maent yn gweithredu ynddo.

Wrth ddylunio ein harchwiliad, fe wnaethom bennu'r effaith ac asesu'r risgiau o gamddatganiadau gwirioneddol yn y datganiadau ariannol. Yn benodol, fe wnaethom ystyried penderfyniadau goddrychol gan y Cyngor e.e. mewn perthynas ag amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol oedd yn cynnwys gwneud rhagdybiaethau ac ystyried digwyddiadau yn y dyfodol sydd, ynddo'i hun, yn broses ansicr yn ei hanfod.

Mae'r grŵp yn cynnwys y sefydliad ac un is-gwmni. Fe wnaethom gynnal archwiliadau cwmpas llawn o bob endid oherwydd bod angen archwiliad statudol unigol ar gyfer pob un ohonynt.

Fe wnaeth yr archwiliadau cwmpas llawn a gynhaliwyd gan dîm y grŵp ystyried 100% o drosiant y grŵp a 100% o gyfanswm asedau'r grŵp.

Perthnasedd

Fe ddylanwadodd ein defnydd o berthnasedd ar gwmpas ein hymchwiliad. Fe wnaethom osod rhai trothwyon ansoddol o ran effaith. Fe wnaeth y rhain, ynghyd ag ystyriaethau ansoddol, ein helpu i bennu cwmpas ein harchwiliad yn ogystal â natur, amseriad ac ehangder ein gweithdrefnau archwilio ynghylch yr eitemau unigol a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Roeddent hefyd o gymorth wrth werthuso perthnasedd camddatganiadau, yn unigol ac ar y cyd, ar y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

Ar sail ein barn broffesiynol, dyma sut y gwnaethom bennu'r perthnasedd ar gyfer ein datganiadau ariannol yn gyffredinol:

Effaith gyffredinol
Datganiadau Ariannol y Grŵp: £5.7m (2019: £5.4m).

Datganiadau Ariannol y Sefydliad: £5.7m (2019: £5.4m).

Sut y gwnaethom ei phennu
1% o incwm (ar gyfer y Grŵp a'r Sefydliad).

Rhesymeg ar gyfer y meincnod
Rydym o'r farn bod incwm yn feincnod priodol, gan gydnabod bod y sefydliad yn sefydliad nid-er-elw, ac am fod incwm yn sbardun pwysig er mwyn ariannu gwariant perthnasol (ar gyfer y Grŵp a'r Sefydliad).

£0.07m oedd y perthnasedd a ddyrannwyd i'r gydran. Archwiliwyd y cydrannau fel effaith archwiliad statudol lleol oedd hefyd yn llai nag effaith ein grŵp yn gyffredinol.

Roeddem yn cytuno gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg y byddem yn eu hysbysu am unrhyw gamddatganiadau gwerth dros £0.28m (archwiliad o'r grŵp) (2019: £0.26m) a £0.28m (archwiliad o'r sefydliad) (2019: £0.26m). Byddem hefyd yn eu hysbysu am gamddatganiadau o dan y gwerth hwn a ddylai gael eu hamlygu am resymau ansoddol yn ein barn ni.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi ynghylch y materion canlynol mewn perthynas â safonau ISA's (DU). Dyma'r adegau pan mae'n ofynnol i ni eich hysbysu:

- os yw'r modd y mae'r Cyngor defnyddio sail cyfrifyddu'r busnes wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- nid yw'r Cyngor wedi datgelu unrhyw ansicrwydd gwirioneddol yn y datganiadau ariannol a allai godi amheuon o bwys ynghylch gallu'r grŵp a'r sefydliad i barhau i ddefnyddio sail cyfrifyddu'r busnes am o leiaf blwyddyn ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Fodd bynnag, gan nad oes modd darogan holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn gwarantu gallu'r grŵp a'r sefydliad i barhau fel busnes gweithredol.

Hysbysu ynghylch gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilwyr yn eu cylch. Y Cyngor sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn ni ynghylch y datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth arall. Felly, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o sicrwydd am y wybodaeth oni bai ein bod yn mynegi hynny'n gwbl glir yn yr adroddiad hwn.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall. Wrth wneud hynny, rhaid i ni ystyried a yw'r wybodaeth hon yn wirioneddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos fel petai'n gamddatganiad gwirioneddol. Os byddwn yn nodi camddatganiad gwirioneddol neu unrhyw beth sy'n wirioneddol anghyson yn ôl pob golwg, mae'n ofynnol i ni gynnal gweithdrefnau sy'n penderfynu a oes camddatganiad gwirioneddol o'r datganiadau ariannol neu gamddatganiad gwirioneddol o'r wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed, nad oes camddatganiad gwirioneddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar sail y cyfrifoldebau hyn.

Ar sail y cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod, a'r gwaith a ymgymerwyd gennym yn ystod yr archwiliad, mae'n ofynnol i ni gan ISAs (UK) i hysbysu ynghylch safbwyntiau a materion penodol fel yn ôl yr hyn a ddisgrifir isod.

Adroddiad Blynyddol

O dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os, yn ein barn ni, yw'r wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn anghyson ag unrhyw elfen wirioneddol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol. Nid oes gennym unrhyw eithriadau i'r adroddiad sy'n deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Cyfrifoldebau dros y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Cyfrifoldebau'r Cyngor dros y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yng Nghyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd, y Cyngor sy'n gyfrifol am lunio datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Y Cyngor sy'n gyfrifol hefyd am reolaeth fewnol o'r fath gan ei mai'r Cyngor sy'n penderfynu beth sydd ei angen i baratoi datganiadau ariannol sydd heb unrhyw gamddatganiad gwirioneddol, boed hynny oherwydd camgymeriad neu dwyll.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Cyngor sy'n gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r sefydliad fel busnes gweithredol. Lle bo'n berthnasol, bydd yn datgelu materion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol ac yn defnyddio sail cyfrifyddu'r busnes oni bai bod y Cyngor naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r sefydliad neu ddod â gweithrediadau i ben, neu sydd heb ddewis realistig arall ar wahân i hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr dros archwilio'r datganiadau ariannol a'r archwiliad

Rydym yn gymwys i weithredu ac wedi ein penodi fel archwilwyr o dan adran 144 Deddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wneir neu'n cael effaith yn sgîl hynny.

Ein nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn cynnwys camddatganiadau gwirioneddol, boed hynny oherwydd camgymeriad neu dwyll, a'n bod yn gallu cyhoeddi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â safonau ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad gwirioneddol sy'n bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad. Maent yn cael eu hystyried yn gamddatganiadau gwirioneddol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, naill ai'n unigol neu wedi'u cyfuno, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer yr archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) yn:
www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities

Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilwyr.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y barnau, wedi'i lunio ar gyfer Cyngor y sefydliad fel corff yn unol ag Erthygl 18 Erthyglau Llywodraethu'r sefydliad ac adran 124B Deddf Diwygio Addysg 1988 fel y'i diwygiwyd gan adran 71 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac adran 151 Deddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno (Rheoliad 4 Rheoliadau Elusennau (Cyfrifol ac Adroddiadau) 2008) ac i ddim diben arall. Nid ydym, wrth roi'r safbwyntiau hyn, yn derbyn nac yn ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldeb at unrhyw ddiben arall nac i unrhyw unigolyn arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y gall fynd i'w ddwylo ac eithrio lle y cydsyniwyd â hynny'n benodol ac yn ysgrifenedig gennym ymlaen llaw.

Adroddiadau gofynnol eraill

Barn ar faterion eraill a ragnodwyd yng Nghôd Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC') a gyhoeddwyd gan Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 a'r Côd Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Yn ein barn ni, ac ym mhob ffordd wirioneddol:

- mae gofynion cyfarwyddyd cyfrifon CCAUC wedi'u bodloni;
- mae cyllid o ba ffynhonnell bynnag, ac a weinyddir gan y Sefydliad at ddibenion penodol, wedi'u cymhwyso'n briodol at y dibenion hynny ac wedi'u rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- mae incwm wedi'i gymhwyso yn unol â statudau'r sefydliad;
- mae cyllid a ddarparwyd gan CCAUC wedi'i gymhwyso yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd ac unrhyw delerau ac amodau eraill sy'n gysylltiedig â hwy. ac
- mae'r arian a roddwyd gan CCAUC wedi'i ddefnyddio at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer.

Digonolrwydd gwybodaeth a chofnodion cyfrifyddu ac esboniadau a dderbyniwyd

O dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os, yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifydda digonol gan y rhiant-sefydliad; neu
- nid yw datganiadau ariannol y rhiant-sefydliad mewn cytundeb â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifydda; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw eithriadau i'r adroddiad sy'n deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Penodi

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael, y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 1988 yw'r dyddiad diweddaraf y cawsom ein penodi'r archwilwyr. Ar sail y flwyddyn benodi ddiweddaraf yn 1988, 33 mlynedd yw cyfanswm y cyfnod ymgysylltu di-dor ac yn cynnwys y blynyddoedd a ddaeth i ben rhwng 31 Gorffennaf 1988 ac 31 Gorffennaf 2020.

PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
Caerdydd

Tachwedd 2020

Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Incwm Cynhwysfawr

Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020

		Cyfunol		Sefydliad	
	Nodyn	2020 £'000	2019 £'000	2020 £'000	2019 £'000
Incwm					
Ffioedd dysgu a grantiau cymorth	2	297,005	279,521	297,005	279,521
Grantiau'r Corff Ariannu	3	78,161	57,985	78,161	57,985
Grantiau a chytundebau ymchwil	4	112,773	116,048	112,773	116,048
Incwm arall	5	74,183	76,117	72,839	74,682
Incwm o fuddsoddiad	6	5,906	6,259	5,900	6,255
Rhoddion a gwaddolion	7	784	2,570	784	2,613
Cyfanswm Incwm		568,812	538,500	567,462	537,104
Gwariant					
Costau staff	8	326,077	312,313	326,077	312,313
Costau staff – (gostyngiad)/cynnydd mewn USS darparu cynllun pensiwn	10,21	(55,214)	92,908	(55,214)	92,908
Costau staff – Datblygu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol		-	6,537	-	6,537
Treuliau gweithredu eraill	10	174,852	180,177	173,639	178,981
Dibrisiant	11	40,382	40,547	40,382	40,547
Llog a chostau ariannol eraill	9	13,465	12,351	13,456	12,343
Cyfanswm y Gwariant	10	499,562	644,833	498,340	643,629
Gwarged / (diffyg) gweithredu cyn enillion a cholledion eraill		**69,250**	**(106,333)**	**69,122**	**(106,525)**
Colledion ar waredu asedau diriaethol		-	(2,719)	-	(2,719)
Amhariad o fuddsoddiad anghyfredol		-	(9,504)	-	(19,000)
Ennill ar brisio buddsoddiadau	12,20	4,371	12,244	4,371	12,244
Cyfran o'r diffyg gweithredu mewn cyd-fentrau	12	(2,742)	(2,803)	-	-
Gwarged / (diffyg am y flwyddyn)		70,879	(109,115)	73,493	(116,000)
Colled actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	21	(39,970)	(9,103)	(39,970)	(9,103)
Ennill a wireddwyd ar ailbrisio asedion a waredwyd		-	821	-	821
Cyfanswm y gwarged / (diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn		30,909.	(117,397)	33,523	(124,282)
Cynrychiolir hynny gan:					
Incwm cynhwysfawr o waddolion am y flwyddyn		701	3,745	701	3,745
Incwm cynhwysfawr / (gwariant) cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn		(274)	(65)	(274)	(65)
Incwm cynhwysfawr / (gwariant) nad yw'n gyfyngedig ar gyfer y flwyddyn		30,482	(121,077)	33,096	(127,962)
		30,909.	(117,397)	33,523	(124,282)

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus.

Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn

Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020

Cyfunol	Cyfrif incwm a gwariant			Ailbrisio'r cronfeydd wrth gefn	Cyfanswm
	Gwaddolion	Cyfyngedig	Anghyfyngedi		
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gweddill ar 1 Awst 2018	34,492	687	330,445	339,290	704,914
Gwarged / (diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	3,745	(65)	(112,795)	-	(109,115)
Gwariant cynhwysfawr arall	-	-	(8,282)	-	(8,282)
Cyfanswm y diffyg cynhwysfawr am y flwyddyn	3,745	(65)	(121,077)	-	(117,397)
Trosglwyddiad i ddiffyg cynhwysfawr	-	-	-	(821)	(821)
Trosglwyddiadau rhwng ailbrisio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn	-	-	6,296	(6,296)	-
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2019	38,237	622	215,664	332,173	586,696
Gwarged / (diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	701	(274)	70,452	-	70,879
Gwariant cynhwysfawr arall	-	-	(39,970)	-	(39,970)
Cyfanswm y gwarged / (diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn	701	(274)	30,482	-	30,909.
Trosglwyddiadau rhwng ailbrisio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn	-	-	6,277	(6,277)	-
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2020	38,938	348	252,423	325,896	617,605

Sefydliad	Cyfrif incwm a gwariant			Ailbrisio'r cronfeydd wrth gefn	Cyfanswm
	Gwaddolion	Cyfyngedig	Anghyfyngedi		
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gweddill ar 1 Awst 2018	34,492	687	336,423	339,290	710,892
Gwarged / (diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	3,745	(65)	(119,680)	-	(116,000)
Gwariant cynhwysfawr arall	-	-	(8,282)	-	(8,282)
Cyfanswm y gwarged / (diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn	3,745	(65)	(127,962)	-	(124,282)
Trosglwyddiad i ddiffyg cynhwysfawr	-	-	-	(821)	(821)
Trosglwyddiadau rhwng ailbrisio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn	-	-	6,296	(6,296)	-
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2019	38,237	622	214,757	332,173	585,789
Gwarged / (diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	701	(274)	73,066	-	73,493
Gwariant cynhwysfawr arall	-	-	(39,970)	-	(39,970)
Cyfanswm y gwarged / (diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn	701	(274)	33,096	-	33,523
Trosglwyddiadau rhwng ailbrisio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn	-	-	6,277	(6,277)	-
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2020	38,938	348	254,130	325,896	619,312

Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Sefyllfa Ariannol

Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020

		Cyfunol		Sefydliad	
	Nodyn	2020 £'000	2019 £'000	2020 £'000	2019 £'000
Asedau anghyfredol					
Asedau sefydlog diriaethol	11	846,797	782,833	846,797	782,833
Buddsoddiadau	12	9,264	11,832	10,634	10,490
		856,061	794,665	857,431	793,323
Asedau cyfredol					
Stociau	13	295	240	295	240
Dyledwyr	14	52,002	55,159	52,788	55,825
Buddsoddiadau	16	215,726	277,537	215,726	277,537
Arian parod a chyfatebol i arian parod	15	124,976	118,509	124,022	117,678
		392,999	451,445	392,831	451,280
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn	17	(140,729)	(148,871)	(140,224)	(148,271)
Asedau cyfredol net		252,270	302,574	252,607	303,009
Cyfanswm asedau heb gynnwys y rhwymedigaethau cyfredol		1,108,331	1,097,239	1,110,038.	1,096,332
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	18	(303,417)	(310,295)	(303,417)	(310,295)
Darpariaethau pensiwn	21	(187,309)	(200,248)	(187,309)	(200,248)
Cyfanswm asedau net		**617,605**	**586,696**	**619,312**	**585,789**
Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig					
Cronfeydd incwm a gwariant wrth gefn – cronfa waddol wrth gefn	22	38,938	38,237	38,938	38,237
Cronfeydd incwm a gwariant wrth gefn – cronfa gyfyngedig wrth gefn		348	622	348	622
Cronfeydd anghyfyngedig					
Cronfeydd incwm a gwariant wrth gefn – cyfyngedig		252,423	215,664	254,130	214,757
Ailbrisio'r cronfeydd wrth gefn		325,896	332,173	325,896	332,173
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn		**617,605**	**586,696**	**619,312**	**585,789**

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 28 i 57 eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Tachwedd 2020 a'u llofnodi ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

Yr Athro Stuart Palmer
Cadeirydd y Cyngor

Yr Athro Colin Riordan
Is-Ganghellor

Robert Williams
Prif Swyddog Ariannol

Datganiad Cyfunol a'r Sefydliad o Lifoedd Arian

Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020

		Cyfunol		Sefydliad	
	Nodyn	2020 £'000	2019 £'000	2020 £'000	2019 £'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu					
Gwarged / (Diffyg am y flwyddyn)		70,879	(109,115)	73,493	(116,000)
Addasiad ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod					
Dibrisiant	11	40,382	40,547	40,382	40,547
Colled / (Enillion) ar brisiad buddsoddiadau anghyfredol	12	394	(591)	394	(591)
Enillion ar fuddsoddiadau cyfredol	16	(4,765)	(11,653)	(4,765)	(11,653)
Cynnydd mewn stoc	13	(55)	(7)	(55)	(7)
Gostyngiad yn y dyledwyr	14	3,157	8,289	3,037	7,901
(Gostyngiad) / Cynnydd yn y credydwyr		(4,869)	16,477	(4,774)	16,624
Taliadau / (Credydau) pensiynau nad ydynt yn arian parod	21	(52,909)	93,212	(52,909)	93,212
Cyfran o'r diffyg gweithredu mewn cyd-fentrau	12	2,742	2,803	-	-
Amhariad o fuddsoddiadau anghyfredol	12	-	9,504	-	19,000
Gwaredu asedau sefydlog diriaethol	11	-	2,719	-	2,719
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannu					
Incwm o fuddsoddiad	6	(5,906)	(6,259)	(5,900)	(6,255)
Llog taladwy	9	9,846	9,969	9,837	9,961
Incwm gwaddol	7	(166)	(403)	(166)	(403)
Incwm grant cyfalaf	3,5	(21,518)	(5,773)	(21,518)	(5,773)
Mewnlif arian net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu		37,212	49,719	37,056	49,282
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi					
Derbynebau grant cyfalaf		13,594	13,851	13,594	13,851
Incwm o fuddsoddiad	6	5,906	6,259	5,900	6,255
Tynnu blaendaliadau'n ôl		66,576	54,993	66,576	54,993
Taliadau i gaffael asedau sefydlog	11	(104,346)	(62,164)	(104,346)	(62,164
Caffaeliadau o fuddsoddiad anghyfredol	12	(793)	(1,231)	(763)	(1,231)
Gwarediadau o fuddsoddiad anghyfredol	12	225	-	225	-
Trosglwyddiadau o flaendaliadau tymor gyda mwy na 3 mis o aeddfedrwydd		-	10,000	-	10,000
Arian parod net (all-lif) / mewnlif a ddefnyddir mewn gweithgareddau buddsoddi		(18,838)	21,708	(18,814)	21,704
Llif arian o ariannu gweithgareddau					
Llog a dalwyd	9	(9,728)	(9,851)	(9,719)	(9,843)
Arian parod gwaddolion a dderbyniwyd	7	166	403	166	403
Ad-daliadau o symiau a fenthycwyd		(2,345)	(2,171)	(2,345)	(2,171)
All-lif arian parod net a ddefnyddir mewn gweithgareddau ariannu		(11,907)	(11,619)	(11,898)	(11,611)
Gostyngiad mewn arian parod a chyfatebol i arian parod yn ystod y flwyddyn		6,467	59,808	6,344	59,375
Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn		118,509	58,701	117,678	58,303
Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	15	124,976	118,509	124,022	117,678

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020

1. Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu

Sail y paratoad

Paratowyd y wybodaeth ariannol gyfunol hon yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch 2019, y Safon Adrodd Ariannol (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011. Mae'r Sefydliad yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi defnyddio'r gofyniad budd cyhoeddus perthnasol o 102 FRS. Mae'r wybodaeth ariannol wedi'i pharatoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (a addaswyd gan yr ailbrisiad tir ac adeiladau ac yn dilyn mesur rhai offerynnau ariannol ar werth teg).

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u llunio ar sail busnes byw. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol wrth baratoi ei datganiadau ariannol roi sicrwydd i'r Cyngor a'n harchwilwyr fod y Brifysgol yn fusnes gweithredol.

Rhoddir sicrwydd drwy ddarogan llifoedd-arian parod i ddod, ar sail incwm diweddaraf y Brifysgol, ei gwariant, ei chyfalaf gweithredol a disgwyliadau rhaglen buddsoddi cyfalaf. Mae hyn yn sicrhau bod hylifedd arian parod yn cael ei gynnal hyd at lefel briodol ar gyfer y cyfnod 12 mis o'r dyddiad y llofnodir y datganiadau hyn h.y. hyd at 31 Rhagfyr 2021, a thu hwnt hyd at 31 Gorffennaf 2023.

Mae'r Brifysgol wedi ystyried effaith yr amgylchedd COVID-19 cyfredol ar y busnes am y 12 mis nesaf a'r tymor hwy, er na ellir rhagweld dyfnder na hyd pandemig COVID-19 na'i ganlyniadau i'r sector addysg uwch neu'r economi fyd-eang.

Er bod y sefyllfa'n esblygu bob dydd, sy'n gwneud cynllunio sefyllfaoedd yn anodd, mae'r Brifysgol wedi cynnal ymarferion cyllidebu cynhwysfawr mewn perthynas â threuliau gweithredu i sicrhau mai gwariant hanfodol yn unig a wneir drwy'r flwyddyn nesaf, wedi gweithredu rhewi recriwtio o fis Mawrth 2020 ac, wedi ystyried a modelu sawl senario gredadwy yn ymwneud â ffrydiau incwm, yn enwedig niferoedd myfyrwyr a chynhyrchu incwm ffioedd.

Yn ogystal, tybir y bydd Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf y Brifysgol yn parhau trwy'r camau sy'n weddill o daliadau adeiladu a therfynol.

Er mwyn sicrhau bod byffer addas o hylifedd arian parod yn cael ei gynnal, yn enwedig yn ystod copaon a chafnau llif arian gweithredol, rydym yn agosáu at sicrhau cyfleuster credyd cylchdroi o £30m dros dair blynedd.

Mae'r Brifysgol yn ystyried atebion ariannu tymor canolig eraill hefyd.

O ganlyniad i'r adolygiad beirniadol o bopeth sydd uchod, mae'r Cyngor yn credu bod y Brifysgol mewn sefyllfa dda i reoli ei chyllid a risgiau busnes eraill yn foddhaol, ac mae ganddo ddisgwyliad rhesymol y bydd gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu am o leiaf 12 mis o ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol cyfunol hyn.

Sail y cyfnerthu

Er bod y datganiadau ariannol cyfnerthedig yn cyfnerthu datganiadau ariannol y Brifysgol a'i his-gwmni University College Cardiff Consultants Limited am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf, nid ydynt yn cynnwys rhai Undeb Myfyrwyr y Brifysgol na rhai Cardiff Partnership Fund Limited gan nad oes gan y Cyngor reolaeth dros eu gweithgareddau ariannol a gweithredol. Mabwysiedir polisïau cyfrifyddu unffurf ledled y Grŵp. Cyfrifir y mentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Cydnabod incwm

Nodir incwm ffioedd fel gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt neu'n daliad asiant tramor ac yn cael ei gredydu i'r Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr. Lle rhoddir disgownt i swm y ffioedd dysgu am daliad prydlon, dangosir yr incwm sy'n dderbyniadwy net y disgownt. Cyfrifir bwrsariaethau ac ysgoloriaethau ar ffurf gros fel gwariant ac nid ydynt yn cael eu didynnu o incwm.

Credydir incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr pan mae'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn cael eu darparu i gwsmer allanol neu pan mae telerau'r contract wedi cael eu bodloni.

Credydir incwm buddsoddi yn y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr ar sail dderbyniadwy.

Mae cronfeydd mae'r Brifysgol yn eu derbyn ac yn dosbarthu fel asiant talu ar ran corff ariannu wedi'u heithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle mae'r Brifysgol yn agored i risg bychan neu'n mwynhau mantais economaidd fach sy'n ymwneud â'r trafodyn.

Cyllid grant

Mae cyllid grant gan gynnwys cyllid o grant bloc y cyngor, grantiau ymchwil a ffyrlo o ffynonellau Llywodraeth a grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau nad ydynt yn llywodraethol yn cael eu cydnabod fel incwm pan mae'r amodau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni a bod y Brifysgol yn gymwys i hawlio'r incwm. Gelwir incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau'n ymwneud â pherfformiad yn incwm gohiriedig o fewn credydwyr ar y fantolen ac mae'r rhain yn cael eu rhyddhau i fod yn incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

Rhoddion a gwaddolion

Rhoddion a gwaddolion yw trafodion nad ydynt yn gyfnewidiol heb amodau yn ymwneud â pherfformiad. Cydnabyddir rhoddion a gwaddolion gyda chyfyngiadau gan y rhoddwr yn yr incwm pan mae gan y Sefydliad hawl i'r arian. Mae'r incwm yn cael ei gadw yn y gronfa dros ben nes bod yn cael ei ddefnyddio ar adeg benodol yn unol ag amodau o'r fath, ac ar y pwynt hwn bydd yr incwm yn cael ei ryddhau i gronfeydd cyffredinol wrth gefn drwy drosglwyddiad cronfeydd wrth gefn.

Cydnabyddir rhoddion heb unrhyw gyfyngiadau gan y rhoddwr yn yr incwm pan mae gan y Brifysgol hawl i'r arian.

Cofnodir incwm buddsoddi a symudiadau yng ngwerth teg gwaddolion mewn incwm yn y flwyddyn y maent yn codi a naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn ôl telerau'r cyfyngiadau sy'n berthnasol i'r cronfeydd gwaddol unigol.

Mae pedwar prif fath o roddion a gwaddolion yn cael eu nodi mewn cronfeydd wrth gefn:

1. Rhoddion cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod rhaid defnyddio'r rhodd hwnnw ar gyfer amcan penodol.
2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi y dylid buddsoddi'r arian yn barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Sefydliad.
3. Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, ac mae gan y Sefydliad y pŵer i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi y dylid buddsoddi'r arian yn barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w ddefnyddio ar gyfer amcan penodol.

Grantiau cyfalaf

Cydnabyddir grantiau cyfalaf mewn incwm pan mae gan y Sefydliad yr hawl i'r arian yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy'n ymwneud â pherfformiad.

Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus

Gwneir darpariaeth fel rheol ar gyfer dyledion unigol lle credir bod amheuaeth o ran adennill ar y sail bod y ddyled wedi dyddio y tu hwnt i'w dyddiad dyledus, amgylchiadau hysbys eraill sy'n ymwneud â'r dyledwr unigol, megis a gyfeiriwyd at asiantaeth casglu dyledion, ac adennill dyledion ar ôl y flwyddyn. Bernir bod modd adennill unrhyw ddyledion heb eu darparu.

Yn sgîl pandemig COVID-19, mae'r Brifysgol wedi wynebu amgylchiadau unigryw yn y misoedd cyn diwedd y flwyddyn, a gwnaed dyfarniadau pellach ynghylch dyledwyr ffioedd dysgu. Rhoddir rhagor o fanylion yn yr adran Amcangyfrifon arwyddocaol a dyfarniadau ar dudalen 35.

Cynlluniau pensiwn

Y tri phrif gynllun pensiwn diffiniedig i staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (yr USS), Cronfa Bensiwn Sefydliad Caerdydd (y CUPF) a'r Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol (yr LGPS). Mae'r cynlluniau yn gynlluniau buddiannau a ddiffinnir gan arian. Prisir y cronfeydd bob tair blynedd gan actwari sydd â chymwysterau proffesiynol ac fe wnaiff hynny gan ddefnyddio'r dull cronni neu'r dull oed-a-gyrhaeddwyd, ac ymddiriedolwyr y cynllun, ar sail y cyngor a gânt gan yr actiwari, sy'n penderfynu ar gyfraddau'r cyfraniadau sy'n daladwy.

Mae'r USS yn gynllun aml-gyflogwr lle nad yw'n bosibl nodi asedau a rhwymedigaethau i aelodau'r Sefydliad oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, felly mae'r cynllun hwn yn cael ei gyfrif fel cynllun cyfrannu at fuddiannau ymddeol diffiniedig.

Cofnodir rhwymedigaeth mewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad cytundebol i ariannu diffygion yn y gorffennol yn y cynllun USS.

Cynllun cyfraniadau diffiniedig:

Cynllun buddiannau yn dilyn cyflogaeth yw cynllun cyfraniadau diffiniedig lle mae'r Brifysgol yn talu cyfraniadau penodol i endid ar wahân ac ni fydd ganddynt unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau pellach. Mae rhwymedigaethau i gyfrannu at gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cydnabod fel traul yn y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnodau pan mae gwasanaethau yn cael eu darparu gan weithwyr.

Cynllun buddiannau diffiniedig:

Mae'r cynlluniau buddiannau diffiniedig yn gynlluniau buddiannau ar ôl cyflogaeth sy'n eithriad i'r cynlluniau cyfraniadau diffiniedig. O dan gynlluniau buddion diffiniedig, ymrwymiad y Brifysgol yw darparu buddion y cytunwyd arnynt i weithwyr presennol a chyn-weithwyr, ac mae risg actiwariaidd (y bydd buddion yn costio mwy neu lai na'r disgwyl) a risg buddsoddiad (y bydd yr arian a geir yn ôl ar asedau sydd wedi'u gosod i un ochr er mwyn ariannu'r buddion yn wahanol i ddisgwyliadau) yn cael eu neilltuo, o ran sylwedd, gan y Sefydliad. Dylai'r Brifysgol gydnabod atebolrwydd ar gyfer ei rwymedigaethau o dan net cynlluniau buddiannau diffiniedig o asedau'r cynllun. Mae'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net hwn yn cael ei fesur fel y swm yr amcangyfrifir o fuddiannau mae cyflogwyr wedi'u hennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnod presennol a'r cyfnodau blaenorol, am bris gostyngol i bennu ei werth presennol, a gan dynnu gwerth teg (am bris bidio) asedau'r cynllun. Perfformir y cyfrifiad gan actiwari cymwys gan ddefnyddio'r dull credydau uned rhagamcanol. Lle mae'r cyfrifiad yn arwain at ased net, mae cydnabyddiaeth yr ased yn gyfyngedig i'r graddau mae'r Brifysgol yn gallu adennill y gwarged naill ai drwy gyfraniadau llai yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun.

Yn ogystal, mae Cynllun Blwydd-dal y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG) yn weithredol yn achos rhai aelodau o'r staff. Cynllun buddion diffiniedig sydd heb ei ariannu yw cynllun y GIG, a thelir buddion pensiwn o'r cyfraniadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ac yn ôl y cyfraddau cyfrannu y penderfynir arnynt gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Cyfrifir hyn fel cynllun cyfraniadau diffiniedig. I gydymffurfio â Deddf Pensiynau 2008, mae'r Sefydliad hefyd yn defnyddio cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig NEST ar gyfer gweithwyr cymwys nad ydynt yn gytundebol.

Buddion cyflogaeth

Mae buddion cyflogaeth tymor byr fel cyflogau ac absenoldebau yn cael eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn darparu gwasanaeth i'r Sefydliad. Bydd unrhyw fuddion segur yn cronni ac yn cael eu mesur fel y swm ychwanegol mae'r Sefydliad yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawliau heb eu defnyddio.

Arian tramor

Cofnodir trafodion a wneir mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid a oedd ar waith ar ddyddiadau'r trafodion. Trosir asedau ariannol ac atebolrwydd mewn arian tramor i arian Prydain, sef arian cyfred swyddogaethol y Sefydliad, yn ôl y cyfraddau diwedd-blwyddyn a chaiff y gwahaniaethau yn y cyfraddau cyfnewid sy'n deillio o hynny eu cynnwys wrth benderfynu ar y diffyg neu'r gwarged am y flwyddyn.

Prydlesau gweithredu

Codir costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Mae unrhyw bremiymau neu gymhellion prydles yn cael eu gwasgaru dros dymor gofynnol y brydles.

Asedau sefydlog

Mae asedau sefydlog yn cael eu nodi ar gost / cost dybiedig namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig. Mesurwyd asedau eiddo rhydd-ddaliadol ac ar brydles hir sy'n bodoli wrth drosglwyddo i'r SORP AB/AU (1 Awst 2014) ar sail cost dybiedig, sef gwerth teg y farchnad neu gost dybiedig amnewid.

Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm wedi ei ailbrisio a'r gost hanesyddol ei gredydu i gronfa ailbrisio wrth gefn.

Caiff swm sy'n hafal i'r dibrisiant dros hynny ar sail y gost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i enillion wedi'u cadw.

Tir ac adeiladau

Caiff costau o ran tir ac adeiladau ar ôl adeiladu neu brynu cychwynnol neu adeiladu eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu'r manteision disgwyliedig yn y dyfodol i'r Brifysgol.

Ni chaiff tir ei ddibrisio am y credir bod iddo oes ddefnyddiol amhenodol. Mae adeiladau yn dibrisio ar sail llinell syth dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig fel a ganlyn:

Adeiladau rhestredig ac adeiladau academaidd	50 mlynedd
Safleoedd preswyl cyn 1990	25 mlynedd
Safleoedd preswyl ar ôl 1990 a safleoedd preswyl Gogledd Tal-y-bont	50 mlynedd
Tai Preswyl	50 mlynedd
Adeiladau lled-barhaol a Mathemateg / Addysg	25 mlynedd
Adeiladau newydd ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru	50 mlynedd
Hen adeiladau ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru	25 mlynedd
Adnewyddu	15 mlynedd

Mae adeiladau prydles yn dibrisio dros gyfnod byrrach y brydles neu'r cyfnod y mae disgwyl iddynt fod o ddefnydd a ddangosir uchod.

Ni chodir unrhyw ddibrisiant ar asedau yn ystod y gwaith adeiladu.

Offer

Caiff gwerth offer sy'n costio llai na £10,000 yr eitem neu grŵp o eitemau cysylltiedig ei ddileu ym mlwyddyn eu caffael heblaw eu bod yn cael eu prynu yn rhan o waith adnewyddu. Caiff yr holl offer eraill eu cyfalafu ac eithrio'r offer a ariennir o Grantiau Ymchwil ac sy'n costio o dan £50,000. Caiff hwn hefyd ei ddileu ym mlwyddyn eu prynu.

Caiff offer sydd wedi'i ddibrisio'n llawn ei ddileu 10 mlynedd ar ôl ei gaffael.

Caiff offer a gyfalafwyd eu rhestru yn ôl eu cost a chânt eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig rhwng pedair a phymtheg mlynedd, fel sy'n briodol. Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu mo'u dibrisio tan iddynt gael eu rhoi ar waith.

Buddsoddiadau

Cedwir buddsoddiadau asedau anghyfredol ar y fantolen ar gost namyn colled, oni bai y gellir pennu'r gwerth teg yn ddibynadwy. Cedwir mentrau ar y cyd ar gost namyn colled yn natganiadau ariannol y Brifysgol.

Cedwir buddsoddiadau asedau cyfredol ar werth teg gyda symudiadau'n cael eu cydnabod yng nghyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn.

Stociau

Y stociau yw deunyddiau adeiladu, nwyddau traul meddygol/y biowyddorau a nwyddau traul masnachu yr Uned Gwaith Ystadau, Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd ac Arlwyo yn y drefn honno. Caiff y rhain eu prisio yn ôl y gost isaf neu'r pris gwerthadwy net.

Arian parod a chyfatebol i arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar alw, a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar alw os ydynt ar gael yn ymarferol ymhen 24 awr heb gosb.

Buddsoddiadau tymor byr, hynod hylifol y gellir eu trosi'n hawdd i swm o arian heb risg sylweddol i newid mewn gwerth yw'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod.

Cynnal a Chadw Eiddo

Mae gan y Brifysgol gynllun cynnal a chadw treigl a adolygir bob blwyddyn. Codir cost y cynnal a chadw cywirol rheolaidd i'r cyfrif incwm a gwariant wrth iddi godi.

Statws treth

Gan fod y Brifysgol yn elusen gofrestredig o fewn ystyr Pennod 1 Adran 3 Deddf Elusennau 2011, mae felly yn elusen o fewn ystyr Adran 6 Deddf Cyllid 2010. Yn unol â hynny, mae'r Brifysgol wedi'i heithrio, o bosibl, rhag talu treth mewn cysylltiad â'r incwm neu'r enillion cyfalaf a gaiff hi o fewn y categorïau sy'n dod o dan Adrannau 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau y caiff yr incwm hwnnw neu'r enillion hynny ei gymhwyso neu eu cymhwyso at ddibenion cwbl elusennol er lles y cyhoedd.

Mae pob is-gwmni'n atebol i dalu Treth Gorfforaeth a Threth ar Werth (TAW). Mae prif weithgareddau'r Brifysgol wedi'u heithrio rhag TAW ond mae rhai cyflenwadau a gwasanaethau ategol yn agored i dalu TAW ar amrywiol gyfraddau. Mae'r gwariant yn cynnwys TAW anadferadwy a godir gan gyflenwyr i'r Brifysgol. Nid oes rhaid i'r Brifysgol dalu Treth Tir y Doll Stamp wrth brynu neu brydlesu eiddo.

Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan mae gan y Brifysgol rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol ac mae'n debyg y bydd gofyn trosglwyddo budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o gyfanswm y rhwymedigaeth.

Offerynnau ariannol

Mae'r Brifysgol wedi dewis mabwysiadu Adrannau 11 a 12 o FRS102 mewn perthynas ag offerynnau ariannol ar gyfer ei gyfrifon cyfunol a datganiadau ariannol y Sefydliad.

(i) Asedau Ariannol

Mae asedau ariannol sylfaenol, gan gynnwys symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, arian parod a gweddill banc a buddsoddiadau mewn papur masnachol, i ddechrau yn cael eu cydnabod am bris y trafodyn, oni bai bod y trefniant yn cynnwys trafodyn ariannu, lle mae'r trafodyn yn cael ei fesur ar werth presennol y derbyniadau yn y dyfodol gyda disgownt o gyfradd llog y farchnad.

Mae asedau o'r fath yn cael eu cynnal yn dilyn hynny ar gost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd mae asedau ariannol yn cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio ar gyfer tystiolaeth wrthrychol o golled. Os yw ased am wneud colled, y golled hon yw'r gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llifau arian parod amcangyfrifedig wedi eu disgowntio ar gyfradd llog effeithiol gwreiddiol yr ased. Cydnabyddir y golled yng nghyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn.

Os oes gostyngiad yn y golled sy'n deillio o ddigwyddiad sy'n digwydd ar ôl nodi'r golled, caiff y golled ei gwrthdroi. Mae'r gwrthdroi yn golygu nad yw'r swm cario presennol yn fwy na beth fyddai'r swm cario wedi bod pe na fyddai'r golled wedi'i chydnabod yn flaenorol. Cydnabyddir y ffaith fod colled yn cael ei gwrthdroi yng nghyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn.

I ddechrau, mesurir asedau ariannol eraill, gan gynnwys buddsoddiadau mewn offerynnau ecwiti nad ydynt yn is-gwmnïau, partneriaethau cyswllt neu cyd-fentrau, ar werth teg sydd fel arfer y pris trafodyn.

Mae asedau o'r fath yn cael eu cynnal ar werth teg ac mae'r newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod mewn gwarged neu ddiffyg, heblaw bod buddsoddiadau mewn offerynnau ecwiti nad ydynt yn cael eu masnachu yn gyhoeddus a'r rhai na ellir mesur eu gwerth teg yn cael eu mesur ar gost namyn y golled.

Mae asedau ariannol yn cael eu dad-gydnabod pan mae (a) yr hawliau cytundebol i'r llifau arian o'r ased yn dod i ben neu'n cael eu setlo, neu (b) yr holl risgiau a gwobrwyon o berchnogaeth yr asedau'n cael eu trosglwyddo i barti arall neu (c) er cadw rhai o risgiau a gwobrwyon sylweddol perchnogaeth, mae rheolaeth yr ased wedi'i drosglwyddo i barti arall sydd â'r gallu ymarferol i werthu ased i drydydd parti digyswllt yn unochrog heb osod cyfyngiadau ychwanegol.

(ii) Rhwymedigaethau ariannol

Mae rhwymedigaethau ariannol sylfaenol, gan gynnwys symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, benthyciadau banc, benthyciadau gan gwmnïau o'r cyd-grŵp a blaengyfrannau sy'n cael eu galw'n ddyled, i ddechrau yn cael eu cydnabod am bris y trafodyn, oni bai bod y trefniant yn cynnwys trafodyn ariannu, lle mae'r offeryn dyled yn cael ei fesur ar werth presennol y derbyniadau yn y dyfodol gyda disgownt o gyfradd llog y farchnad.

Yn dilyn hynny cynhelir offerynnau dyled ar gost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Cydnabyddir ffioedd a delir wrth sefydlu cyfleusterau benthyg fel costau trafodion y benthyciad i'r graddau ei bod yn debygol y bydd rhai neu bob un o'r cyfleusterau yn cael eu derbyn. Yn yr achos hwn, mae'r ffi yn cael ei gohirio hyd nes y caiff yr arian ei dderbyn. I'r graddau nad oes unrhyw dystiolaeth ei bod yn debygol y bydd rhywfaint o'r cyfleuster neu'r cyfleuster cyfan yn cael ei dderbyn, mae'r ffi yn cael ei chyfalafu fel taliad ymlaen llaw am wasanaethau hylifedd a'i amorteiddio dros gyfnod y cyfleuster mae'n perthyn iddo.

Symiau masnach taladwy yw'r rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u caffael yn nhrefn arferol y busnes gan gyflenwyr. Gelwir cyfrifon sy'n daladwy yn rhwymedigaethau cyfredol os yw taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os nad ydynt, fe'u cyflwynir fel rhwymedigaethau anghyfredol. I ddechrau mae symiau masnach taladwy yn cael eu cydnabod am

bris trafodyn ac wedyn eu mesur ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dad-gydnabod pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei ddihysbyddu, hynny yw pan fydd y rhwymedigaeth cytundebol yn cael ei ganslo, ei ryddhau neu'n dod i ben.

Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu galw'n gyfyngedig neu'n anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys gweddill sydd, drwy waddol i'r Brifysgol, yn cael eu cadw fel cronfa gyfyngedig barhaol y mae'n rhaid i'r Brifysgol ei gadw am byth.

Mae'r cronfeydd cyfyngedig eraill sydd wrth gefn yn cynnwys gweddill lle mae'r rhoddwr wedi dynodi diben penodol. Felly cyfyngir ar y modd y caiff y Brifysgol ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

Amcangyfrifon arwyddocaol a dyfarniadau

Dyma'r amcangyfrifon arwyddocaol a'r dyfarniadau a ddefnyddiwyd i baratoi'r wybodaeth ariannol hon:

(i) Adenilladwyedd dyledwyr

Heriwyd y polisi cyfrifyddu arferol ar gyfer asesu adenilladwyedd dyledwyr a'r ddarpariaeth o ran colledion o ddyledion amheus dilynol eleni gan bandemig COVID-19 a'r amgylchiadau unigryw a gyflwynodd i'r Brifysgol ynghylch casglu ffioedd myfyrwyr a dyled Masnachol ac Ymchwil.

Yn gyntaf, oherwydd y cyfuniadau symud o ganol mis Mawrth 2020 yn sgil COVID-19, gwnaeth y Brifysgol ganiatáu i fyfyrwyr ddychwelyd i'w cartrefi teuluol. Addawodd y Brifysgol hefyd roi'r gorau i weithdrefnau casglu dyledion arferol ar gyfer holl ddyled myfyrwyr o ganol mis Mawrth ymlaen tan Awst 2020 pan ail-ddechreuwyd gweithdrefnau arferol. Nid oedd hyn yn cynnwys casglu ffioedd llety lle roedd myfyrwyr yn aros mewn preswylfeydd sy'n eiddo i'r Brifysgol am naill ai rhan o'u contract llety neu'r contract cyfan.

Yn ail, addaswyd y prosesau casglu dyledion wrth ystyried amgylchiadau pob categori o ddyledwr lle cyhoeddwyd llythyrau atgoffa awtomataidd ond ni fyddai unrhyw gamau dilynol pellach wedi'u gwneud.

Yn gyffredinol, mae effaith COVID-19 ar allu'r Brifysgol i gasglu dyledion a'n myfyrwyr, cleientiaid Masnachol ac Ymchwil y DU a rhyngwladol i dalu dyledion wedi bod yn araf, ac mae proffil dyledion hwyr wedi cynyddu a bernir ei fod mewn mwy o berygl, yn enwedig dyled ryngwladol oherwydd effaith amrywiol COVID-19 ar wlad breswyl y dyledwr perthnasol.

Amcangyfrif

Dyled Ffioedd Dysgu

Asesir darpariaeth dyledion amheus nad ydynt yn debygol o gael eu had-dalu'n llawn y ffioedd dysgu ar ddiwedd y flwyddyn ar sail yr holl ddyled hwyr yn ôl categori dyledwr ffioedd, waeth beth fo'u proffil oed, gyda chategorïau penodol yn priodoli mwy o risg nag eraill o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19.

Mae'r ddarpariaeth dyledion cyfanredol sy'n deillio o hyn yn cael ei lleihau gan setliadau ffioedd dilynol a dderbynnir ar ôl 31 Gorffennaf 2020 gan ddyledwyr yn yr un categorïau hyn. Bernir bod yr holl ddyled arall o ffioedd dysgu yn adenilladwy.

Y ddyled o ffioedd dysgu ar 31 Gorffennaf 2020 oedd £9.8m (gweler Nodyn 14), ac roedd £ 9.4m yn hwyr. Ar ôl cymhwyso ein polisi dyledion nad ydynt yn debygol o gael eu had-dalu'n llawn, barnwyd bod £8.7m mewn perygl, a derbyniwyd £3.7m ohono ar ôl 31 Gorffennaf 2020, gan arwain at ddarpariaeth o ran dyledion nad oes disgwyl iddynt gael eu had-dalu'n llawn o £5.0m (2019: £0.3m).

Dyled Fasnachol ac Ymchwil

Mae polisïau asesu dyledion nad ydynt yn debygol o gael eu had-dalu'n llawn wedi'u cymhwyso, ac eithrio gyda sefydliadau addysg uwch tramor gan fod dyled sydd dros 91 diwrnod yn hwyr yn amodol ar ddarpariaeth dyledion (a ddarperir fel arfer ar pan mae 181 diwrnod yn hwyr).

Dyled gyffredinol, masnachol ac ymchwil ar 31 Gorffennaf 2020 yw £17.4m (gweler Nodyn 14), nad oes angen £12.9m ohono i'w setlo neu lai na 90 diwrnod yn hwyr.

Ar ôl cymhwyso'r polisi wedi'i addasu am ddyledion nad ydynt yn debygol o gael eu had-dalu'n llawn i'r ddyled hwyr o £4.5m, asesir £1.3m mewn perygl (2019: £0.8m) ac yn ddarostyngedig i ddarpariaeth dyledion nad ydynt yn debygol o gael eu had-dalu'n llawn.

(ii) Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol

Amcangyfrif

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd (CUPF), ac mae'n cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS); mae'r ddau yn gynlluniau buddiannau diffiniedig. Cynhelir prisiadau actiwarïaidd o'r cynlluniau fel y pennir gan yr ymddiriedolwyr ar adegau hyd at dair blynedd o hyd.

Asesir costau pensiwn o dan FRS 102 yn unol â chyngor actiwarïaid annibynnol yn seiliedig ar brisiadau actiwarïaidd diweddaraf a rhagdybiaethau a bennir gan yr actiwarïaid.

Mae'r tybiaethau yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd i actiwarïaid gan y Sefydliad, wedi'i ategu gan drafodaethau rhwng yr actiwari a'r tîm rheoli. Mae'r tybiaethau wedi'u dogfennu yn Nodyn 23.

Mae FRS102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun buddiannau diffiniedig grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredin ac (fel arfer) yn cynrychioli cynllun ar draws y diwydiant cyfan, er enghraifft Cynllun Pensiwn y Prifysgolion.

Mae'r broses gyfrifyddu ar gyfer cynllun aml-gyflogwr o'r fath lle'r aeth y cyflogwr i gytundeb â'r cynllun sy'n pennu sut fydd y cyflogwr yn ariannu diffyg, yn arwain at gydnabyddiaeth o atebolrwydd ar gyfer y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau eu bod yn perthyn i'r diffyg) a'r datganiad sy'n ganlyniad ynghylch yr hyn a warir o ran incwm a gwariant, yn unol ag adran 28 FRS102. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod Cynllun Pensiwn y Prifysgolion yn bodloni diffiniad cynllun aml-gyflogwr ac felly wedi cydnabod gwerth teg gostyngol y cyfraniadau cytundebol o dan drefniadau adfer y cynllun oedd yn bodoli ar 31 Gorffennaf 2020.

Gan fod y Brifysgol wedi'i rhwymo o dan gontract i wneud taliadau adfer diffyg i USS, cydnabyddir hyn fel rhwymedigaeth yn y fantolen. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gynllun adfer diffygion USS a gytunwyd ar ôl prisiad actiwaraidd 2018, sy'n diffinio'r taliad diffygion sy'n ofynnol fel canran o gyflogau yn y dyfodol tan 2024. Mae'r cyfraniadau hyn yn cael eu hail-asesu ym mhob prisiad teirblwydd o'r cynllun. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif y rheolwyr o chwyddiadau cyflogau yn y dyfodol, newidiadau yn nifer y staff a chyfradd gyffredinol y gostyngiad. Nodir mwy o fanylion yn Nodyn 23.

Dyfarniad

Cymeradwywyd y prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2018 ym mis Medi 2019 a chytunodd yr Ymddiriedolwyr fod canlyniadau'r prisiad hwn yn cynrychioli digwyddiad ôl-fantolen nad oedd yn addasu yn Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2018/19 ac o ganlyniad, mae'r gostyngiad mewn atebolrwydd wedi cael cyfrif fel rhan o'r Datganiadau Ariannol 2019/20 hyn. Datgelir manylion yr effaith yn Darpariaethau Nodyn 21.

2. Ffioedd Dysgu a Grantiau Cymorth

Cyfunol a Sefydliad

	2020 £'000	2019 £'000
Israddedigion o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd	142,583	139,674
Ôl-raddedigion o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd	15,708	14,332
Tramor (gan gynnwys rhan-amser)	96,404	83,236
Rhan-amser (o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd)	6,430	5,938
	261,125	243,180
Contractau addysg	15,885	17,182
Grantiau cymorth hyfforddiant ymchwil	9,446	7,686
Ffioedd nad ydynt yn dwyn credyd	10,549	11,473
	297,005	279,521

3. Grantiau Cyrff Ariannu

Cyfunol a Sefydliad

	2020 £'000	2019 £'000
Grantiau rheolaidd	59,740	50,930
Grantiau penodol	3,063	1,282
Grantiau cyfalaf - adeiladau	13,108	950
Grantiau cyfalaf - offer	2,250	4,823
	78,161	57,985

4. Grantiau a Chontractau Ymchwil

Cyfunol a Sefydliad

	2020 £'000	2019 £'000
Cynghorau Ymchwil	36,159	32,869
Elusennau sydd â'u canolfan yn y DU	18,423	24,805
Cyrff Llywodraeth y DU	33,799	33,931
Diwydiannau'r DU	7,348	6,371
Y Comisiwn Ewropeaidd	9,251	10,502
Dramor	6,734	5,984
Grantiau a chontractau eraill	1,059	1,586
	112,773	116,048

5. Incwm Arall

	Cyfunol		Sefydliad	
	2020 £'000	2019 £'000	2020 £'000	2019 £'000
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd:				
Llywodraeth Ganolog y DU	19,943	20,490	19,943	20,490
